# Strategaeth Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant 2024-28

Cyngor Caerdydd

## CYNLLUN CYDRADDOLDEB STRATEGOL CYNGOR CAERDYDD














This document is also available in English.
Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

Os oes angen y ddogfen arnoch mewn fformat arall megis print bras, cysylltwch â **tîmcydraddoldeb@caerdydd.gov.uk**



CRYFACH TECACH GWYRDDACH

CARDIFF CAERDYDD

# Strategaeth Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant

## Cynnwys


| Cynnwys | Page |
|---|---|
| Strategaeth Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant | 3 |
| Cyd-destun Deddfwriaethol | 3 |
| Datblygu'r Strategaeth Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant | 5 |
| Terminoleg | 6 |
| Mesur Cynnydd | 6 |
| Amcanion Cydraddoldeb 2024-28 | 9 |
| Caerdydd Decach: Byddwn yn lleihau anghydraddoldeb ac yn cefnogi pawb yng Nghaerdydd i gyflawni eu potensial | 12 |
| Caerdydd Hygyrch: Byddwn yn gweithio i sicrhau y gall pawb gymryd rhan ym mhopeth sydd gan y ddinas i'w gynnig, ni waeth beth y bo'u cefndir neu eu hamgylchiadau | 24 |
| Caerdydd Gynhwysol:Byddwn yn gwneud Caerdydd yn ddinas lle mae gwahaniaethau'n cael eu deall a'u dathlu, a lle mae pob cymuned yn teimlo ei bod yn perthyn | 36 |
| Cyngor sy'n adlewyrchu ei gymunedau: Byddwn yn gwneud Cyngor Caerdydd yn sefydliad mwy cynhwysol sy'n adlewyrchu amrywiaeth y bobl rydym yn eu gwasanaethu, a lle mae'r gweithwyr yn hyderus i fod yn nhw eu hunain ac yn cael eu grymuso i symud ymlaen | 42 |
| Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant wrth wraidd y sefydliad: Byddwn yn sicrhau bod prosesau craidd Cyngor Caerdydd yn cefnogi Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant | 50 |

# Strategaeth Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant

Er bod Caerdydd yn lle gwych i fyw ynddo, nid yw'n rhydd o'r anghydraddoldebau a'r gwahaniaethu hirsefydlog sy'n effeithio ar bob dinas fawr.

Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i Gydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant, ac mae'r datganiad polisi **'Cryfach, Tecach, Gwyrddach'** yn ei gwneud yn glir bod creu Dinas decach wrth wraidd agenda polisi'r Cyngor. Mae hyn yn golygu y gall pawb fwynhau'r cyfleoedd niferus o fyw yng Nghaerdydd, beth bynnag y bo'u cefndir; lle cefnogir y rhai sy'n ddifreintiedig; a lle mae pob trigolyn yn cael ei werthfawrogi, ac yn teimlo ei fod yn cael ei werthfawrogi.

Ledled y Cyngor, mae pob maes gwasanaeth yn gweithio'n galed i ddeall anghenion eu defnyddwyr gwasanaeth amrywiol a sicrhau y gellir diwallu'r anghenion hynny'n effeithiol. Yn ehangach, mae'r Cyngor, fel sefydliad, wedi ymrwymo i sefydlu fframwaith clir i hybu gwell canlyniadau i bobl sy'n profi anfantais - boed hynny'n gysylltiedig â'u nodweddion gwarchodedig neu o ganlyniad i anghydraddoldeb economaidd-gymdeithasol.

Mae'r Strategaeth yn nodi Amcanion Cydraddoldeb y Cyngor ar gyfer y pedair blynedd nesaf, gyda chamau gweithredu clir i gyflawni'r amcanion hynny.

## Cyd-destun Deddfwriaethol

Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn amddiffyn pobl rhag gwahaniaethu. Defnyddir y term 'nodwedd warchodedig' i ddisgrifio agweddau ar hunaniaeth person ac i sicrhau nad oes neb yn cael ei drin yn llai ffafriol oherwydd pwy ydynt. Dyma'r Nodweddion a Ddiogelir:

- Oedran
- Anabledd
- Ailbennu rhywedd
- Priodas a phartneriaeth sifil
- Beichiogrwydd a mamolaeth
- Hil
- Crefydd, cred neu ddiffyg cred
- Rhyw
- Chyfeiriadedd rhywiol

## Dyletswydd Cydraddoldeb Sector Cyhoeddus (DCSC)

Cyflwynodd Deddf 2010 **Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus (DCSC)**, sydd â thri nod cyffredinol. Rhaid i'r rhai sy'n ddarostyngedig i'r ddyletswydd (sy'n cynnwys awdurdodau lleol) roi sylw dyledus i'r angen i:

- Ddileu gwahaniaethau, aflonyddu ac erledigaeth anghyfreithlon ac ymddygiadau eraill a waherddir dan y Ddeddf.
- Hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig a'r rheiny nad ydynt yn rhannu'r fath nodweddion.
- Meithrin perthnasoedd da rhwng pobl sydd â nodwedd warchodedig a'r rheiny nad oes ganddynt y fath nodweddion.

Nod y DCSC yw sicrhau bod y rhai sy'n ddarostyngedig iddo yn ystyried hyrwyddo cydraddoldeb wrth gyflawni eu gweithrediadau o ddydd i ddydd. Ar gyfer Cyngor Caerdydd, mae hyn yn cynnwys llunio polisi, darparu gwasanaethau ac ymwneud â'n gweithwyr.

## Dyletswydd Economaidd-gymdeithasol

Cyflwynodd Deddf 2010 hefyd **Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol**, er mai dim ond o 31 Mawrth 2021 y daeth y Ddyletswydd i rym yng Nghymru. Nod cyffredinol y Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol yw sicrhau gwell canlyniadau i'r rhai sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol. Mae'n ei gwneud yn ofynnol i gorff cyhoeddus *"wrth wneud penderfyniadau strategol am sut i arfer ei swyddogaethau, roi sylw dyledus i fuddioldeb eu harfer mewn ffordd sydd wedi'i dylunio i leihau'r anghydraddoldebau o ran canlyniadau sy'n deillio o anfantais economaidd-gymdeithasol."*

## Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011 (Rheoliadau 2011)

Yng Nghymru, mae'r Cyngor hefyd yn ddarostyngedig i ddyletswyddau penodol a geir yn Rheoliadau 2011, a elwir hefyd yn ddyletswyddau cydraddoldeb penodol i Gymru. Mae hyn yn cynnwys cyhoeddi Cynllun Cydraddoldeb Strategol sy'n nodi Amcanion Cydraddoldeb, o leiaf bob pedair blynedd. Mae'r Strategaeth Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant hon yn ffurfio Cynllun Cydraddoldeb Strategol y Cyngor ac mae'n cynnwys ein Hamcanion Cydraddoldeb yn ôl y gofyn. Mae'r Amcanion Cydraddoldeb, sy'n cael eu llywio gan asesiad cadarn o anghydraddoldeb, yn ymateb i anghydraddoldeb cyffredinol yn y ddinas, yn enwedig gan eu bod yn ymwneud â'r rhai sydd â nodweddion gwarchodedig. Felly, mae gan yr Amcanion Cydraddoldeb ffocws thematig, gan ymateb i'r materion hynny sy'n cael eu hystyried yn flaenoriaeth, yn enwedig pan fo effaith anghymesur ar grwpiau penodol o bobl â nodweddion gwarchodedig. Am y rheswm hwn, nid oes unrhyw amcan ar gyfer pob nodwedd warchodedig ond bu ystyriaeth gydwybodol o ble mae effaith anghymesur wedi bod ar bobl â nodweddion gwarchodedig a ble mae angen gweithredu.

Mae'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol (CCHD) yn gweithredu fel rheoleiddiwr sy'n sicrhau cydymffurfiaeth a chyflawniad camau gweithredu sy'n cefnogi'r DCSC.

## Datblygu'r Strategaeth Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant

Mae datblygu'r Strategaeth wedi bod yn destun ymchwil ac ymgysylltiad helaeth.

**Asesiad o Anghenion Cydraddoldeb:** Cynhaliwyd 'Asesiad o Anghenion Cydraddoldeb' i nodi'r materion pwysicaf sy'n wynebu pobl â nodweddion gwarchodedig gwahanol, yn ogystal â rhai nodweddion eraill, megis y Gymraeg a bod yn ofalwr. Mae'r asesiad yn dwyn ynghyd ystod o ddata, adroddiadau ac ymchwil sy'n bodoli eisoes, gyda'r wybodaeth yn cael ei chyflwyno o amrywiaeth o ffynonellau, gan amrywio o lefel leol i lefel Cymru gyfan ac ar draws y DU. Roedd hyn hefyd yn cynnwys gwaith ymgysylltu sydd wedi'i wneud yn lleol gan Ganolfan Ymchwil ac Ymgysylltu Caerdydd (CYYC)[1].

Pan fydd ar gael, mae'r adolygiad yn dadansoddi ffynonellau data fesul nodwedd warchodedig, gan edrych ar ganlyniadau i bobl o ran meysydd megis iechyd, addysg, safonau byw, gwaith, cyfiawnder a chyfranogiad. Mae'r dull gweithredu'n galluogi materion croestoriadol lle gall un neu fwy o ffactorau nodweddion gwarchodedig ac economaidd-gymdeithasol arwain at, neu barhau, ffurfiau gwahanol o wahaniaethu neu anfantais.

**Ymgynghori ac Ymgysylltu:** Mae Strategaeth Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant 2024-28 wedi bod yn destun ymgynghoriad ac ymgysylltiad cyhoeddus helaeth.

I gyd-fynd â'r data a deall profiadau bywyd unigolion yn y ddinas, cynhaliwyd ymgysylltu helaeth â rhanddeiliaid yn wreiddiol i lywio datblygiad Strategaeth ddrafft. Roedd hyn yn cynnwys ymgysylltu â Phwyllgor Craffu Adolygu Polisi a Pherfformiad y Cyngor am ei adborth, yn ogystal â gwahodd barn Aelodau Etholedig a Rhwydweithiau Gweithwyr y Cyngor.

Ymgynghoriad ffurfiol chwe wythnos ar Strategaeth Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant drafft y Cyngor ac yn dilyn hynny, rhedodd o ddydd Llun 3 Mehefin 2024 tan ddydd Sul 14 Gorffennaf 2024. Roedd hyn yn cynnwys lansio arolwg, a geisiodd farn ar Amcanion Cydraddoldeb arfaethedig y Cyngor a meysydd ffocws. Roedd yr arolwg ar gael ar-lein ac ar ffurf bapur, yn Gymraeg a Saesneg, yn ogystal ag Arabeg, Pwyleg a Bengaleg, gan mai dyma'r ieithoedd cymunedol mwyaf cyffredin ledled y ddinas, fel y nodwyd gan Gyfrifiad 2021. Roedd fideo am y Strategaeth ddrafft mewn Iaith Arwyddion Prydain (BSL) hefyd ar gael ar-lein.

Gwnaed ymdrechion i hyrwyddo'r arolwg i grwpiau sydd fel arfer yn llai tebygol o gymryd rhan mewn methodolegau ymgynghori ac ymgysylltu traddodiadol, yn bennaf pobl sydd o dan 35 oed; yn 75 oed neu'n hŷn; pobl o gefndiroedd ethnig amrywiol; pobl sy'n uniaethu'n anabl; a phobl sy'n byw yn ardaloedd tlotaf y ddinas. Cafodd lefelau o ymatebion eu monitro yn ystod y cyfnod ymgynghori, ac addaswyd dulliau o ymgysylltu â'r grwpiau hyn i sicrhau bod eu barn yn cael ei chasglu. Cafwyd cyfanswm o 801 o ymatebion i'r arolwg yn y pen draw.

Ochr yn ochr â'r arolwg, cynhaliwyd rhagor o ymgysylltu wyneb yn wyneb wedi'i dargedu, mae'r ddau sefydliad yn gweithredu ar ran grwpiau sydd fel arfer yn cael eu tangynrychioli mewn ymgynghoriadau, a gydag unigolion o gymunedau nad ydynt yn cael eu cynrychioli'n ddigonol.

Mae'r Strategaeth derfynol wedi'i diweddaru mewn ymateb i'r negeseuon allweddol sy'n dod i'r amlwg o'r ymgynghori a'r ymgysylltu.

[1] CYYC yw tîm ymgynghori ac ymgysylltu'r Cyngor, sydd â hanes sefydledig o gynhyrchu ymchwil o ansawdd uchel. Gallwch ddarllen yr holl adroddiadau a gyhoeddwyd gan CYYC yma. Mae'r adroddiadau'n dadansoddi canlyniadau arolygon a gynhelir gan y ganolfan a gellir eu hidlo yn ôl pwnc, dyddiad cyhoeddi neu ward.

## Terminoleg

Rydym wedi ymrwymo i ddefnyddio iaith gynhwysol a pharchus drwy gydol y Strategaeth Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant hon. Er mwyn sicrhau bod ein terminoleg yn adlewyrchu amrywiaeth ein cymunedau, ceisiom adborth gan y cyhoedd a rhanddeiliaid allweddol wrth gynnal ymgynghoriad ac ymgysylltu. Fodd bynnag, mae'n bwysig nodi, mewn rhai achosion, bod y derminoleg a ddefnyddir yn cyd-fynd â'r iaith benodol a geir yn y ffynonellau polisi a'r dystiolaeth a ddefnyddir i lywio'r Strategaeth. Er bod y termau hyn yn adlewyrchu'r cyd-destun y cawsant eu defnyddio'n wreiddiol ynddo, rydym yn cydnabod bod iaith yn esblygu, a gall yr hyn a ystyrir yn gynhwysol heddiw newid dros amser. Felly, rydym wedi ymrwymo i addasu ein terminoleg mewn ymateb i'r newidiadau hyn ac yn croesawu adborth parhaus i sicrhau bod ein hiaith yn parhau i fod yn gynhwysol ac yn barchus.

## Mesur Cynnydd

Bydd cynnydd yn erbyn y Strategaeth hon yn cael ei gofnodi trwy adroddiad blynyddol. Bydd hyn yn cynnwys diweddariad naratif yn erbyn pob un o'r ymrwymiadau, yn ogystal â diweddariadau yn erbyn y Dangosyddion Perfformiad Allweddol (DPA) – cyfuniad o ddangosyddion cenedlaethol, rhanbarthol, a lleol – a restrir ym mhob Amcan Cydraddoldeb.



## Mynd i'r Afael ag Anghydraddoldeb Hirsefydlog

Fel pob dinas yn y DU, mae Caerdydd yn wynebu anghydraddoldeb hirsefydlog. I Gaerdydd, mae Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru yn dangos patrwm cyson dros nifer o flynyddoedd, ond mae hwn yn batrwm a welir mewn dinasoedd ar draws y DU.

Ni all mynd i'r afael ag achosion hirsefydlog anghydraddoldeb fod yn gyfrifoldeb i lywodraeth leol yn unig, o ystyried maint yr her a'r angen am ymyriadau polisi ar lefel genedlaethol. Yn ehangach, penderfyniadau polisi ledled y DU sy'n parhau i gael yr effaith fwyaf sylweddol, yn enwedig mewn perthynas â materion fel buddion, lles a stiwardiaeth yr economi genedlaethol.

Ledled y DU, mae gweithwyr wedi wynebu dim codiad yn eu cyflog, gan leihau safonau byw a dwysáu lefelau tlodi. Nododd adroddiad diweddar gan Sefydliad Joseph Rowntree (2024)[2] y bu bron i ddau ddegawd ers i gyfraddau tlodi ostwng mewn modd parhaus. Mae'r Centre for Cities (2024)[3] hefyd wedi tynnu sylw at duedd twf cynhyrchiant gwael ers 2010 ym mron pob dinas yn y DU, gan arwain at dwf incwm gwario gwan a llai o fforddiadwyedd tai ledled y wlad. Yr hyn sydd wedi cymhlethu'r materion hyn yw'r gostyngiadau mewn budd-daliadau oedran gweithio gwerth go iawn ers 2011, rhewi budd-daliadau plant, a chapiau ar gyfraddau lwfans tai lleol.

Deall Anghydraddoldeb Hirsefydlog: Mae adroddiad Cities Outlook (2024) yn canfod y canlynol ers 2010...

- Mae twf cynhyrchiant – sbardun allweddol cyflogau uwch – yn wael ar draws bron pob dinas.
- Mae twf incwm tafladwy yn wan o ganlyniad i farweidd-dra economaidd. Felly, roedd pobl £10,000 yn waeth eu byd yn 2021 nag y byddent wedi bod pe bai'r economi wedi tyfu ar dueddiadau cyn 2010.
- Daeth tai yn llai fforddiadwy ym mron pob man yn ystod y 2010au.

Ar yr un pryd:

- Cafwyd toriadau i werth go iawn budd-daliadau oedran gweithio ers 2011
- Mae budd-daliadau plant wedi'u rhewi
- Mae cyfraddau Lwfans Tai Lleol wedi cael eu capio

[2] UK Poverty 2024
[3] Cities Outlook 2024

Er nad oes gan awdurdodau lleol yr un pwerau cyllidol na dulliau polisi sydd ar gael i Lywodraeth y DU, mae Cyngor Caerdydd wedi nodi ystod o ymyriadau i fynd i'r afael ag achosion anghydraddoldeb yn sylfaenol, yn ogystal â datblygu ymyriadau wedi'u targedu i gau'r bwlch anghydraddoldeb a brofir gan grwpiau penodol o unigolion.

Mewn meysydd sy'n hanfodol i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb – megis tai, addysg a chyflogaeth – mae'r Cyngor wedi buddsoddi'n helaeth ac wedi cael effaith amlwg ar gyfleoedd bywyd a lles pobl ledled y ddinas. Er enghraifft:

| | |
|---|---|
| **Tai:** Mae cartrefi fforddiadwy o ansawdd da yn hanfodol i ddiwallu anghenion sylfaenol ac i ddarparu llwyfan i achub ar gyfleoedd sy'n gwella ansawdd bywyd unigolyn. | • Mae'r Cyngor yn darparu un o'r rhaglenni adeiladu tai cyngor mwyaf yn y wlad. Ers 2017, mae dros 1,100 o gartrefi wedi'u cwblhau fel rhan o'r rhaglen bresennol.<br>• Mae'r Cyngor yn parhau i atal digartrefedd lle bynnag y bo modd a'i nod yw cael gwared ar gysgu ar y stryd. Yn 2023/24, cafodd 77 % o aelwydydd a oedd dan fygythiad o ddigartrefedd eu hatal rhag colli eu cartrefi neu eu cefnogi i fynd i lety arall. |
| **Addysg a'r Blynyddoedd Cynnar:** Mae addysg dda yn hanfodol ar gyfer datgloi cyfle a thorri cylchoedd anghydraddoldeb. | • Mae cyrhaeddiad addysgol wedi codi bob blwyddyn yng Nghaerdydd ers 2012, ac mae ysgolion Caerdydd bellach ymhlith y rhai sy'n perfformio orau yng Nghymru.<br>• Mae Caerdydd wedi cael ei chydnabod yn ffurfiol fel Dinas sy'n Dda i Blant gyntaf y DU i gydnabod ymrwymiad y Cyngor i hyrwyddo hawliau plant a phobl ifanc ledled y ddinas. |
| **Cyflogaeth:** Mae swyddi da, sefydlog yn rhoi sefydlogrwydd economaidd i unigolion, cyfleoedd i symud ymlaen a llwybr i annibyniaeth ariannol, y mae pob un ohonynt yn cyfrannu at leihau gwahaniaethau a hyrwyddo cynhwysiant cymdeithasol. | • Caerdydd sy'n gyfrifol am 20 % o economi genedlaethol Cymru.<br>• Rhwng 2015 a 2020, roedd y ddinas yn gyfrifol am 80 % o'r twf cyflogaeth net yng Nghymru, gyda 7,000 o swyddi wedi'u creu.<br>• Rhwng 2010 a 2022, bu cynnydd o 140 % yng nghyfanswm y swyddi yng Nghaerdydd.<br>• Trwy'r Ddinas Cyflog Byw, mae mwy na 210 o gyflogwyr Cyflog Byw achrededig yn y ddinas erbyn hyn, sy'n cyflogi dros 76,000 o weithwyr y mae dros 13,000 ohonynt wedi cael codiad i'r Cyflog Byw Gwirioneddol.<br>• Ym mis Mai 2024, cyfrifodd Prifysgol Caerdydd fod tua £82.7 miliwn ychwanegol wedi mynd i economi Caerdydd ers 2012 o ganlyniad i'r codiadau hyn. |

Er y bydd mynd i'r afael ag anghydraddoldeb yn gofyn am ymyrraeth gan y Llywodraeth ar bob lefel, mae'r Cyngor yn glir y byddwn yn defnyddio'r polisïau a'r dulliau cyllidebol sydd ar gael i fynd i'r afael ag achosion sylfaenol anfantais a chau'r bwlch anghydraddoldeb a brofir gan drigolion y ddinas.

## Amcanion Cydraddoldeb 2024-28

1. **CAERDYDD DECACH:** Byddwn yn lleihau anghydraddoldeb ac yn cefnogi pawb yng Nghaerdydd i gyflawni eu potensial.

2. **CAERDYDD HYGYRCH:** Byddwn yn gweithio i sicrhau y gall pawb gymryd rhan ym mhopeth sydd gan Gaerdydd i'w gynnig, waeth beth fo'u cefndir neu eu hamgylchiadau.

3. **CAERDYDD GYNHWYSOL:** Byddwn yn gwneud Caerdydd yn ddinas lle mae gwahaniaethau'n cael eu deall a'u dathlu, a lle mae pob cymuned yn teimlo ei bod yn perthyn.

4. **CYNGOR SY'N ADLEWYRCHU EI GYMUNEDAU:** Byddwn yn gwneud Cyngor Caerdydd yn sefydliad mwy cynhwysol sy'n adlewyrchu amrywiaeth y bobl rydym yn eu gwasanaethu, a lle mae'r gweithwyr yn hyderus i fod yn nhw eu hunain ac yn cael eu grymuso i symud ymlaen.

5. **CYDRADDOLDEB, AMRYWIAETH A CHYNHWYSIANT WRTH WRAIDD Y SEFYDLIAD:** Byddwn yn sicrhau bod prosesau craidd Cyngor Caerdydd yn cefnogi Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant.

Gyda'i gilydd, mae'r amcanion yn ymwneud â phob agwedd ar rolau'r Cyngor fel cyflogwr, fel darparwr gwasanaethau, fel hwylusydd cymunedau cryf ac fel asiantaeth flaenllaw yn y ddinas.

Er nad oes unrhyw amcanion cydraddoldeb sy'n canolbwyntio'n benodol ar fynd i'r afael â gwahaniaethau cyflog, mae Amcan Cydraddoldeb 4: 'Cyngor sy'n adlewyrchu ei gymunedau', yn rhestru nifer o gamau gweithredu y mae'r Cyngor yn eu cymryd i fynd i'r afael â'r bylchau cyflog rhyw ac ethnigrwydd, a'n hymrwymiad i gyhoeddi a monitro'r data hwn.

## Trosolwg o gydraddoldeb ac amrywiaeth



**Cydraddoldeb yw pob un yn cael pâr o esgidiau.**



**Amrywiaeth yw pob un yn cael gwahanol bâr o esgidiau.**



**Tegwch yw pob un yn cael pâr o esgidiau sy'n ffitio.**



**Derbyn yw deall ein bod ni i gyd yn gwisgo gwahanol fathau o esgidiau.**



**Perthyn yw gwisgo'r esgidiau rydych chi eisiau eu gwisgo heb fod ofn cael eich beirniadu.**

# DYMA GAERDYDD




Poblogaeth
362,300

## DADANSODDIAD ETHNIGRWYDD

73.6% - Gwyn Prydeinig
0.6% - Gwyn Gwyddelig
0.2% - Gwyn Sipsiwn neu Deithwyr Gwyddelig
0.2% - Gwyn Roma
4.6% - Gwyn Arall

1.9% - Bangladeshaidd
1.4% - Tsieineaidd
2.4% - Indiaidd
2.4% - Pacistanaidd
1.6% - Asiaidd Arall





1.0% - Gwyn ac Asiaidd
0.7% - Gwyn a Du Affricanaidd
1.2% - Gwyn a Du Caribïaidd
1.1% - Cymysg Arall


2.9% - Affricanaidd
0.4% - Caribïaidd
0.5% - Du Arall

Gwyn, Lleiafrif Ethnig, Asiaidd, Du, Cymysg, Arabaidd, Arall

## YSTOD OEDRAN





## ANABLEDD




*Dan y Ddeddf Cydraddoldeb*

## CREFYDD NEU GRED



| | |
|---|---|
| Dim crefydd | 42.9% |
| Cristion | 38.3% |
| Mwslimaidd | 9.3% |
| Hindŵaidd | 1.5% |
| Bwdhydd | 0.4% |
| Sikh | 0.4% |
| Iddewig | 0.2% |
| Crefydd arall | 0.6% |
| Heb ateb | 6.3% |

DS: Rydym yn cydnabod bod ‘Croestoriadedd’ rhwng y Nodweddion Gwarchodedig.

# DYMA GAERDYDD



Poblogaeth
362,300

## RHYW




## HUNANIAETH RHYWEDD

Preswylwyr 16 oed a throsodd



- 92.9% Yr un peth ag a gofrestrwyd adeg geni
- 0.2% Yn wahanol i'r rhyw a gofrestrwyd ar enedigaeth ond dim hunaniaeth benodol wedi'i rhoi
- 0.1% Menyw draws
- 0.1% Dyn traws
- 0.2% Pob hunaniaeth rhywedd arall
- 6.4% Heb ateb

## Y GYMRAEG

Preswylwyr 3 oed a throsodd

Ddim yn siarad Cymraeg 87.8%



Siaradwyr Cymraeg 12.2%



## CYFEIRIADEDD RHYWIOL

| Preswylwyr 16 oed a throsodd | CYFEIRIADEDD RHYWIOL |
|---|---|
| 87.0 % | Syth neu Heterorywiol |
| 2.4 % | Hoyw neu Lesbiaidd |
| 2.4 % | Deurywiol |
| 0.5 % | Pob cyfeiriadedd rhywiol arall |
| 7.7 % | Heb ateb |

## PRIODAS A PHARTNERIAETH SIFIL

Preswylwyr 16 oed a throsodd

| | |
|---|---|
| Erioed wedi priodi na chofrestru partneriaeth sifil | 48.6% |
| Yn briod neu mewn partneriaeth sifil gofrestredig | 36.8% |
| Wedi ysgaru neu bartneriaeth sifil wedi'i diddymu | 7.8% |
| Gweddw neu bartner sifil sy'n fyw | 5.0% |
| Wedi gwahanu, ond yn dal i fod yn briod neu mewn partneriaeth sifil yn gyfreithiol | 1.8% |

# AMCAN CYDRADDOLDEB 1:

## CAERDYDD DECACH:

Byddwn yn lleihau anghydraddoldeb ac yn cefnogi pawb yng Nghaerdydd i gyflawni eu potensial.



# AMCAN CYDRADDOLDEB 1:
## Caerdydd Decach: Byddwn yn lleihau anghydraddoldeb ac yn cefnogi pawb yng Nghaerdydd i gyflawni eu potensial.

Cafwyd twf economaidd sylweddol yng Nghaerdydd yn ystod y 30 mlynedd ddiwethaf. Er bod y twf hwn wedi dod â chyfleoedd economaidd, cymdeithasol a diwylliannol mawr, nid yw pawb wedi elwa'n gyfartal. Mae'r patrymau tlodi ac anghydraddoldeb a ddaeth i'r amlwg genhedlaeth yn ôl yn parhau, wedi'u gwaethygu gan y pandemig a'r argyfwng costau byw.

Bydd cau'r bwlch anghydraddoldeb yn gofyn am ddarparu addysg ragorol, swyddi sy'n rhoi cyfleoedd ar gyfer cynnydd, ac atebion tai cynaliadwy sy'n diwallu anghenion pawb. Mae angen ffocws hefyd ar leihau anghydraddoldebau iechyd, trwy ddull system gyfan sy'n ehangu pwysigrwydd atal, gan gynnwys y nifer sy'n derbyn imiwneiddiadau a sgriniadau, yn ogystal â ffyrdd iach a heini o fyw. Yn ogystal, bydd angen sicrhau, wrth i Gaerdydd symud ymlaen tuag at fod yn Ddinas Carbon Niwtral, bod y trawsnewid hwn yn gyfiawn ac yn gynhwysol.

Mae'r Amcan Cydraddoldeb hwn yn canolbwyntio ar annhegwch trwy geisio cau'r bwlch anghydraddoldeb a gwella canlyniadau.

Er mwyn gwneud Caerdydd yn ddinas decach, byddwn yn:

- Lleihau anghydraddoldeb a hyrwyddo cyfleoedd i blant a phobl ifanc
- Lleihau anghydraddoldeb iechyd ar draws y ddinas
- Cefnogi pobl i mewn i waith
- Darparu atebion tai cynaliadwy
- Mynd i'r afael â digartrefedd
- Gweithio tuag at drosglwyddiad cyfiawn i fod yn Ddinas Carbon Niwtral

## Y camau y byddwn yn eu cymryd i gyflawni hyn:

### Lleihau Anghydraddoldeb a Hyrwyddo Cyfleoedd i Blant a Phobl Ifanc

Mae blynyddoedd cynnar ac addysg plant yn cael dylanwad mawr ar eu cyfleoedd bywyd. Mae Caerdydd eisoes yn lle da i lawer o'i phlant a'i phobl ifanc dyfu i fyny, gyda'r ddinas yn cynnig cyfoeth o gyfleoedd i greu gyrfa a chymryd rhan mewn chwaraeon, gweithgareddau hamdden a diwylliant. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod bod rhai o blant a phobl ifanc y ddinas yn fwy agored i niwed nag eraill ac mae angen cymorth ychwanegol arnynt i fod yn ddiogel, ffynnu a mwynhau cyfleoedd a lles cadarnhaol yn y dyfodol. Er enghraifft, er bod cyrhaeddiad addysg cyffredinol yng Nghaerdydd wedi gwella bob blwyddyn ers 2012, mae rhai grwpiau o ddysgwyr yn parhau i fod mewn perygl o ganlyniadau addysg gwael, yn enwedig disgyblion sy'n cael eu haddysgu heblaw yn yr ysgol (AHY) a phlant sy'n derbyn gofal. Mae nifer yr achosion o Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)/Anghenion Addysgol Arbennig (AAA) hefyd yn parhau i gynyddu, a waethygir gan yr heriau a achosir gan bandemig Covid-19.

Yn ogystal, cydnabyddir bod gormod o blant yn byw mewn teuluoedd incwm isel yn y ddinas, sy'n gallu cael effaith andwyol ar gyfleoedd a lles plant yn y dyfodol. Mae plant o gefndir economaidd-gymdeithasol is yn fwy tebygol o ddioddef Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod[4] ac mae cyfraddau'r plant yr ystyrir eu bod mewn perygl sy'n cael eu rhoi ar y gofrestr amddiffyn plant, neu sy'n cael eu rhoi mewn gofal, yn llawer uwch yng nghymunedau'r ddinas â'r amddifadedd mwyaf. Mae tystiolaeth hefyd yn awgrymu bod plant o deuluoedd incwm isel yn fwy tebygol o fod â theimladau o unigedd, cael eu tynnu i mewn i ymddygiad gwrthgymdeithaso l, troseddu neu ddioddef effeithiau troseddau.

| Byddwn yn: | Aelod Arweiniol | Cyfarwyddiaeth Arweiniol |
|---|---|---|
| Gwella canlyniadau i blant a phobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol drwy weithredu'r Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol yn llwyddiannus erbyn terfyn amser Llywodraeth Cymru, sef Awst 2025. | Y Cynghorydd Sarah Merry | Addysg a Dysgu Gydol Oes |
| Cefnogi cyrhaeddiad a chynnydd dysgwyr AHY trwy:<br>• Sicrwydd ansawdd cadarn o'r holl ddarpariaeth AHY;<br>• Cymorth cryf ar gyfer pontio i Addysg, Cyflogaeth a Hyfforddiant;<br>• Nodi opsiynau ôl-16 addas. | Y Cynghorydd Sarah Merry | Addysg a Dysgu Gydol Oes |
| Gweithio gydag ysgolion i wella cynnydd a chyrhaeddiad myfyrwyr o gymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr, drwy ardystiadau amgen sy'n canolbwyntio ar sgiliau'r byd go iawn a dysgu rhyngddisgyblaethol. | Y Cynghorydd Sarah Merry | Addysg a Dysgu Gydol Oes |
| Sicrhau mynediad i addysg briodol ar gyfer y nifer cynyddol o ddisgyblion sydd ag anghenion iechyd a lles emosiynol ac anghenion dysgu ychwanegol drwy gyflwyno llefydd ysgol ychwanegol i ateb y galw. | Y Cynghorydd Sarah Merry | Addysg a Dysgu Gydol Oes |
| Cyflwyno Strategaeth Gwrth-fwlio Caerdydd 'Hawliau, Parch, Cydraddoldeb – Herio Bwlio, Troseddau Casineb a Digwyddiadau Casineb', gan ymgorffori arweiniad a hyfforddiant, a monitro ei effaith. | Y Cynghorydd Sarah Merry | Addysg a Dysgu Gydol Oes |
| Datblygu adnoddau a hyfforddiant i ysgolion Caerdydd i gefnogi camau gweithredu gwrth-hiliaeth a mynd i'r afael â rhagfarn hiliol. | Y Cynghorydd Sarah Merry | Addysg a Dysgu Gydol Oes |
| Parhau i wella Ymrwymiad Caerdydd drwy harneisio cyfalaf economaidd, diwylliannol a chymdeithasol Caerdydd er budd plant a phobl ifanc i sicrhau cyfleoedd drwy dargedu rhaglenni sy'n cael eu llywio gan wybodaeth y farchnad lafur i gefnogi pobl ifanc sydd â rhwystrau a heriau i symud i gyflogaeth â thâl, hyfforddiant neu addysg. | Y Cynghorydd Sarah Merry | Addysg a Dysgu Gydol Oes |

[4] Mae Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod (PNPau) yn cynnwys camdriniaeth, esgeulustod a chamweithrediad aelwyd (gan gynnwys camddefnyddio sylweddau rhieni, trais neu wahanu), sydd wedi bod yn gysylltiedig ag amrywiaeth o ganlyniadau niweidiol ar hyd cwrs bywyd, megis iechyd a lles gwaeth, cyrhaeddiad addysgol gwaeth, a risg uwch o garcharu.

| Byddwn yn: | Aelod Arweiniol | Cyfarwyddiaeth Arweiniol |
|---|---|---|
| Adnewyddu'r Strategaeth Rhianta Corfforaethol a'r cynllun gweithredol ar gyfer 2024-27, gan nodi sut y byddwn yn gwella canlyniadau a lles plant sy'n derbyn gofal. | Y Cyng. Ash Lister a’r Cyng. Peter Bradbury | Gwasanaethau Plant |
| Cyfrannu at rôl rhiant corfforaethol trwy sicrhau bod yr holl staff yn deall y cyfrifoldebau o fod yn rhiant corfforaethol a thrwy gefnogi plant sy'n derbyn gofal trwy gyfleoedd fel profiad gwaith neu fentora. | Y Cyng. Ash Lister a’r Cyng. Peter Bradbury | Pob Cyfarwyddiaeth |
| Gweithredu cynllun gwarantu cyfweliad ar gyfer pobl sy’n gadael gofal erbyn mis Rhagfyr 2024. | Y Cyng. Ash Lister, y Cyng. Peter Bradbury a’r Cyng. Chris Weaver | Gwasanaethau Plant, ac Adnoddau |
| Gwella gwasanaethau i blant anabl ag anghenion dysgu ychwanegol a lleihau dibyniaeth ar y sector preifat. | Y Cyng. Ash Lister a’r Cyng. Peter Bradbury | Gwasanaethau Plant |
| Parhau i weithio gyda phartneriaid i ddatblygu a gweithredu llwybrau a model ar y cyd ar gyfer darparu gwasanaethau i blant sydd â phroblemau iechyd meddwl a lles emosiynol difrifol. | Y Cyng. Ash Lister a’r Cyng. Peter Bradbury | Gwasanaethau Plant |
| Datblygu dulliau arloesol yn gynnar i nodi’r rheini sy’n agored i Brofiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod (PNPau), gan roi ymyriadau ataliol, amlasiantaethol ar waith i gefnogi plant a theuluoedd cyn iddynt gyrraedd pwynt argyfwng. | Y Cyng. Ash Lister a’r Cyng. Peter Bradbury | Gwasanaethau Plant |
| Parhau i weithredu’r Strategaeth Cyfiawnder Ieuenctid ‘Adeiladu Dyfodol Mwy Diogel Gyda’n Gilydd’ a Chynllun Gwella i leihau troseddu a gwella canlyniadau i bobl ifanc, gan roi sylw i’r canlynol:<br>• Adnabod ac ymateb i or-droseddu;<br>• Ymyriadau wedi’u targedu o atal i adsefydlu o’r ddalfa. | Y Cyng. Ash Lister a’r Cyng. Peter Bradbury | Gwasanaethau Plant |
| Parhau i ddatblygu a gweithredu’r Model Diogelu Pobl Ifanc rhag Camfanteisio (SAFE), gan gynnwys sefydlu dau dîm camfanteisio amlddisgyblaethol peilot. | Y Cyng. Ash Lister a’r Cyng. Peter Bradbury | Gwasanaethau Plant |
| Gwella monitro data ar waharddiadau a phresenoldeb ysgolion yn ôl grwpiau ethnig. | Y Cynghorydd Sarah Merry | Addysg a Dysgu Gydol Oes |
| Cyflawni Cynllun Gweithredu y Tîm Gwasanaeth Cyflawniad Lleiafrifoedd Ethnig a Theithwyr a’r cynllun gweithredu gyda phartneriaid mewnol. | Y Cynghorydd Sarah Merry | Addysg a Dysgu Gydol Oes |

# Dangosyddion Perfformiad Allweddol:

| Dangosyddion Perfformiad Allweddol: |
|---|
| Canran y dysgwyr AHY sy'n gadael ym Mlwyddyn 11 ac sy'n pontio'n llwyddiannus o addysg statudol i addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant *(Targed 2024/25: 92%)* |
| Canran y plant sy'n derbyn gofal sy'n gadael ym Mlwyddyn 11 ac sy'n pontio'n llwyddiannus o addysg statudol i addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant *(Targed 2024/25: 92%)* |
| Nifer y lleoedd ADY ffurfiol ychwanegol a ddarperir ar draws y ddinas *(Targed 2024/25: 132)* |
| Canran yr ysgolion yng Nghaerdydd sy'n cydymffurfio â strategaeth gwrth-fwlio 'Hawliau, Parch, Cydraddoldeb – Herio Bwlio, Troseddau Casineb a Digwyddiadau Casineb' Caerdydd ac sy'n ymgymryd â hyfforddiant perthnasol. |
| Nifer yr ysgolion sy'n cymryd rhan yn yr Hyfforddiant 'Hyrwyddo Cydraddoldeb' Gwrth-hiliaeth |
| Nifer yr ysgolion gyda Llywodraethwr sy'n gyfrifol am 'Gydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant'. |
| Y nifer sy'n dod i gysylltiad â'r System Cyfiawnder Ieuenctid am y tro cyntaf *(Targed 2024/25: 60)* |
| Canran y plant sy'n aildroseddu o fewn chwe mis i'w trosedd flaenorol *(Targed 2024/25: 40%)* |
| Canran y gwaharddiadau a phresenoldeb ysgolion yn ôl grŵp ethnigrwydd |



# Lleihau Anghydraddoldeb Iechyd ar draws y Ddinas

Mae lefelau iechyd cyffredinol yng Nghaerdydd yn uchel ac mae disgwyliad oes iach wedi bod yn cynyddu'n raddol i bwynt lle mae'n uwch na chyfartaledd Cymru. Fodd bynnag, mae cryn amrywiaeth mewn ymddygiad iach a chanlyniadau iechyd ar draws y ddinas, gyda gwahaniaethau y gellid eu hosgoi'n aml rhwng gwahanol grwpiau o bobl. Er enghraifft, wrth gymharu'r rhai sy'n byw yn ardaloedd y ddinas â'r amddifadedd lleiaf a'r amddifadedd mwyaf, mae gan Gaerdydd un o'r bylchau ehangaf mewn disgwyliad oes iach yng Nghymru. Mae'r rhai sy'n byw mewn tlodi yn fwy tebygol o fod dros bwysau, ac mae nifer yr achosion o ysmygu hefyd yn uwch mewn ardaloedd o amddifadedd uwch. Yn ogystal, mae'r rhai sy'n byw mewn tlodi, yn ogystal â phobl o gefndiroedd ethnig amrywiol, yn llai tebygol o dderbyn imiwneiddiadau a sgriniadau.

Mae anghydraddoldebau iechyd hefyd yn amlwg wrth ystyried mynediad i wasanaethau gofal iechyd. Mae grwpiau fel ffoaduriaid a cheiswyr lloches, pobl sy'n gadael carchardai, y boblogaeth ddigartref a chymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr yn aml yn profi anawsterau a rhwystrau wrth gael mynediad i wasanaethau gofal iechyd.

Ar y cyd â phartneriaid gwasanaethau cyhoeddus, byddwn yn parhau i leihau anghydraddoldebau iechyd, gan sicrhau bod pawb yn cael cyfle i fyw bywyd iach, trwy ddull cynhwysol system gyfan sy'n blaenoriaethu ac yn ehangu pwysigrwydd atal trwy gydol cwrs bywyd.

| Byddwn yn: | Aelod Arweiniol | Cyfarwyddiaeth Arweiniol |
|---|---|---|
| Parhau i ddarparu - ac ehangu - cymorth a mentrau iechyd a lles yn Hybiau a Llyfrgelloedd Caerdydd, gan rymuso cymunedau i ofalu am eu hiechyd a'u lles. | Y Cynghorwyr Julie Sangani a Leonora Thomson | Gwasanaethau Oedolion, Tai a Chymunedau |
| Datblygu dulliau arloesol dan arweiniad data i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd, gan gynnwys:<br>• Gwella cyfraddau brechu ac imiwneiddio plant yng Nghaerdydd;<br>• Gwella'r nifer sy'n manteisio ar sgrinio'r coluddyn;<br>• Lleihau nifer y bobl sy'n smygu. | Y Cynghorwyr Julie Sangani a Leonora Thomson | Gwasanaethau Oedolion, Tai a Chymunedau |
| Cynyddu canran y bobl sydd â phwysau iach a chynyddu lefelau gweithgarwch corfforol, yn enwedig yn y cymunedau mwy difreintiedig, trwy'r ffframwaith Symud Mwy, Bwyta'n Dda. | Y Cynghorwyr Julie Sangani a Leonora Thomson | Gwasanaethau Oedolion, Tai a Chymunedau |
| Datblygu cynllun i gynyddu cyfleoedd cynhyrchu bwyd lleol (masnachol a chymunedol) gan gynnwys:<br>• Datblygu safle treialu ar gyfer tyfu cymunedol erbyn mis Mawrth 2025;<br>• Cyflwyno Her Fwyd Prifddinas-Ranbarth Caerdydd erbyn mis Medi 2025. | Y Cynghorwyr Leonora Thomson, Julie Sangani a Dan Dan De'Ath | Cynllunio, Trafnidiaeth a'r Amgylchedd |

| Byddwn yn: | Aelod Arweiniol | Cyfarwyddiaeth Arweiniol |
|---|---|---|
| Cefnogi clybiau chwaraeon cymunedol â phwyslais arbennig ar grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol. | Y Cynghorydd Jennifer Burke | Datblygu Economaidd |
| Cefnogi gwaith gan BIP Caerdydd a'r Fro i wella cymorth iechyd sydd ar gael i grwpiau ar y cyrion gan gynnwys ffoaduriaid, ceiswyr lloches, pobl sy'n gadael carchar a'r boblogaeth ddigartref, gan gynnwys pobl sy'n cysgu ar y stryd. | Y Cynghorwyr Julie Sangani a Leonora Thomson | Gwasanaethau Oedolion, Tai a Chymunedau |
| Gwella mynediad i wasanaethau gofal iechyd ar gyfer cymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr trwy hyrwyddo a darparu gwasanaethau gofal iechyd ar safleoedd awdurdodau lleol. | Y Cyngh. Leonora Thomson, y Cyng. Julie Sangani, y Cyng. Lynda Thorne a'r Cyng. Lee Bridgeman | Gwasanaethau Oedolion, Tai a Chymunedau |
| Gweithio gyda phartneriaid i ddatblygu gwasanaethau cymorth integredig, gan alluogi pobl ag anableddau dysgu i fyw mor annibynnol â phosibl yn eu cymuned leol. | Y Cynghorwyr Julie Sangani a Leonora Thomson | Gwasanaethau Oedolion, Tai a Chymunedau |
| Gweithio gyda phobl ag anghenion iechyd meddwl a rhanddeiliaid eraill i ddysgu mwy am eu profiadau a'u blaenoriaethau, yna datblygu a darparu gwasanaethau sy'n cefnogi pobl i fod ag iechyd meddwl da. | Y Cynghorwyr Julie Sangani a Leonora Thomson | Gwasanaethau Oedolion, Tai a Chymunedau |

| Dangosyddion Perfformiad Allweddol: |
|---|
| Disgwyliad oes iach ar enedigaeth (gwrywaidd a benywaidd) gan gynnwys y bwlch rhwng y mwyaf a'r lleiaf difreintiedig |
| Nifer y plant sy'n derbyn MMR2 erbyn eu bod yn 4 oed (ail ddos o frechlyn Clwy'r Pennau, y Frech Goch, Rwbela)<br>*Yn ôl clwstwr meddygon teulu* |
| Canran y myfyrwyr sy'n ysmygu o leiaf unwaith yr wythnos ar hyn o bryd |
| Canran yr oedolion sy'n ysmygwyr ar hyn o bryd<br>*Yn ôl clwstwr meddygon teulu* |
| Canran y plant rhwng 4 a 5 sydd â phwysau iach<br>*Yn ôl pumed amddifadedd* |
| Canran yr oedolion sy'n dweud bod eu pwysau'n iach yn ôl lefel amddifadedd |
| Canran y myfyrwyr (11-16 oed) sy'n gorfforol weithgar am fwy na 60 munud ar lai na 3 diwrnod yr wythnos yn ôl sgôr cyfoeth teulu |
| Lles meddyliol: plant a phobl ifanc ac oedolion |
| Canran yr oedolion sy'n disgrifio bod eu hiechyd meddwl yn dda<br>*Yn ôl Oedran, Rhyw, Ethnigrwydd, Anabledd, Cyfeiriadedd Rhywiol, Gallu Siarad Cymraeg, Pumed Amddifadedd, Ward* |
| Nifer yr unigolion sydd ag anableddau dysgu sydd wedi'u cefnogi i gamu lawr i fwy o annibyniaeth |

## Cefnogi Pobl i Mewn i Waith

Mae economi Caerdydd yn ganolog i greu swyddi a denu buddsoddiad i Gymru. Felly, mae Caerdydd yn sicrhau ffyniant economaidd, nid yn unig i drigolion Caerdydd ond i bobl Cymru, gyda Chaerdydd yn cyfrif am 18 % o Werth Ychwanegol Crynswth Cymru a Phrifddinas-Ranbarth Caerdydd ehangach De-ddwyrain Cymru hefyd yn creu dros hanner allbwn economaidd Cymru.

Fodd bynnag, mae rhai grwpiau'n llai tebygol o fod mewn cyflogaeth neu wedi sicrhau cymwysterau. Er enghraifft, nid oes cynrychiolaeth ddigonol o bobl anabl a phobl o gefndiroedd ethnig amrywiol yn y farchnad lafur. Yn ogystal, rydym yn gwybod bod gan bobl hŷn a phobl anabl lefelau is o sgiliau a chymwysterau.

| Byddwn yn: | Aelod Arweiniol | Cyfarwyddiaeth Arweiniol |
|---|---|---|
| Cynyddu cyfranogiad grwpiau ethnig leiafrifol yn y Gwasanaeth i Mewn i Waith drwy wneud y canlynol:<br>• Parhau i ddarparu digwyddiadau ymgysylltu rheolaidd wedi'u targedu a monitro dilyniant cyfranogiad;<br>• Casglu data cyfranogiad o fewn gwasanaethau a ddarperir gan y Gwasanaeth i Mewn i Waith gan sicrhau ei fod yn cael ei fonitro'n rheolaidd. | Y Cyng. Ash Lister a'r Cyng. Peter Bradbury | Gwasanaethau Oedolion, Tai a Chymunedau |
| Gweithio mewn partneriaeth â'r Adran Gwaith a Phensiynau i ddarparu cwrs 'Employable Me' 50+ Dysgu Oedolion ac annog cyflogwyr i gynnig cyfweliadau gwarantedig i gyfranogwyr sy'n cwblhau'r hyfforddiant; | Y Cynghorwyr Julie Sangani a Leonora Thomson | Gwasanaethau Oedolion, Tai a Chymunedau |
| Defnyddio prosesau caffael i gefnogi contractwyr i recriwtio prentisiaid o grwpiau difreintiedig[5] ac i gynyddu tryloywder ynghylch amrywiaeth eu gweithluoedd. | Y Cyng. Chris Weaver, y Cyng. Leonora Thomson a'r Cyng. Julie Sangani | Adnoddau |
| Arwain i greu Dinas Cyflog Byw trwy annog a chefnogi sefydliadau i ddod yn gyflogwyr Cyflog Byw achrededig. | Y Cynghorydd Chris Weaver | Adnoddau |
| Sicrhau bod cymorth parhaus ar gael y gellir ei gyrchu wyneb yn wyneb, trwy'r Llinell Gyngor, neu drwy we-sgwrs neu e-bost. | Y Cyng. Ash Lister a'r Cyng. Peter Bradbury | Gwasanaethau Oedolion, Tai a Chymunedau |

[5] Mae Cyngor Caerdydd o'r farn bod gweithiwr yn dod o 'grŵp difreintiedig' os yw'r canlynol yn wir am y gweithiwr hwnnw:
- nid yw wedi bod mewn cyflogaeth â thâl reolaidd am y 6 mis blaenorol, neu
- rhwng 15 a 24 oed, neu
- nid yw wedi ennill cymhwyster addysgol neu alwedigaethol uwchradd uwch (Dosbarthiad Safon Rhyngwladol Addysg 3) neu o fewn 2 flynedd i gwblhau addysg amser llawn ac nid yw wedi cael ei gyflogaeth gyflogedig reolaidd gyntaf, neu
- dros 50 oed, neu
- yn byw fel oedolyn sengl gydag un neu fwy o ddibynyddion
- yn gweithio mewn sector neu broffesiwn lle mae'r anghydbwysedd rhwng y rhywiau o leiaf 25 % yn uwch na'r anghydbwysedd cyfartalog rhwng y rhywiau ar draws y Deyrnas Unedig, ac sy'n perthyn i'r grŵp rhyw hwnnw nad oes ganddo gynrychiolaeth ddigonol, neu
- yn aelod o leiafrif ethnig ac mae angen datblygu ei broffil iaith, hyfforddiant galwedigaethol neu brofiad gwaith er mwyn gwella'r rhagolygon o gael mynediad i gyflogaeth sefydlog.

Fodd bynnag, bydd y diffiniad hwn yn cael ei ddiweddaru i gyd-fynd â chanllawiau Llywodraeth Cymru sydd i'w cyhoeddi yn 2025.

| Dangosyddion Perfformiad Allweddol: |
|---|
| Cyfradd Cyfrif Hawlwyr (canran y bobl oedran gweithio (16-64) sy'n hawlio budd-daliadau sy'n gysylltiedig â diweithdra yng Nghaerdydd)<br>*Yn ôl Oedran, Rhyw, Pumed Amddifadedd, Ward* |
| Canran y mae eu sefyllfa cyflogaeth wedi gwella dros y 12 mis diwethaf<br>*Yn ôl Oedran, Rhyw, Ethnigrwydd, Anabledd, Cyfeiriadedd Rhywiol, Gallu Siarad Cymraeg, Pumed Amddifadedd, Ward* |
| Canran y cleientiaid Gwasanaeth i Mewn i Waith a nododd eu bod o gefndir Du, Asiaidd neu Ethnig Leiafrifol |
| Nifer yr unigolion sydd wedi mynychu'r cyrsiau dynodedig ar gyfer y rhai 50+ oed a ddarperir gan y Gwasanaeth Cyngor i Mewn i Waith *(Targed 2024/25: 80)* |



# Darparu Atebion Tai Cynaliadwy

Mae mynediad i dai o ansawdd da wrth wraidd lles ac yn hanfodol os yw pobl am gyflawni eu potensial, gyda chysylltiad cynhenid rhwng tai ag iechyd corfforol a meddyliol unigolyn. Yn ogystal, mae byw mewn tai annigonol neu anfforddiadwy yn gysylltiedig ag ystod o ganlyniadau gwael, gan gynnwys canlyniadau addysgol gwaeth i blant.

Fodd bynnag, rydym yn gwybod bod rhai grwpiau o bobl yn fwy tebygol o gael mynediad gwael i dai neu efallai eu bod yn byw mewn amodau anoddach. Er enghraifft, mae pobl o gefndiroedd ethnig amrywiol yn anghymesur o debygol o fyw mewn tai gorlawn, ac mae pobl anabl angen eiddo hygyrch sy'n cefnogi eu diogelwch a'u hannibyniaeth ar gyfer bywyd dyddiol. Am y rheswm hwnnw, mae gwella mynediad i dai cynaliadwy yn elfen allweddol o wneud Caerdydd yn ddinas fwy cyfartal.

| Byddwn yn: | Aelod Arweiniol | Cyfarwyddiaeth Arweiniol |
|---|---|---|
| Cyflawni atebion tai arloesol i fynd i'r afael â materion fel gorlenwi, tanfeddiannu, diffyg llety teuluol a diffyg eiddo wedi'u haddasu. | Y Cyng. Lynda Thorne a'r Cyng. Lee Bridgeman | Gwasanaethau Oedolion, Tai a Chymunedau |
| Parhau i weithio gyda phartneriaid i ddatblygu a gweithredu cynlluniau i gefnogi cartrefi allan o dlodi tanwydd. | Y Cyng. Lynda Thorne a'r Cyng. Dan De'Ath | Cynllunio, Trafnidiaeth a'r Amgylchedd |
| Archwilio'r holl gyfleoedd am gyllid ychwanegol i gefnogi'r gwaith o ddarparu addasiadau i'r anabl ac ail-ffocysu defnydd o gyllid i ddiwallu anghenion yn y ffordd orau. | Y Cynghorwyr Julie Sangani a Leonora Thomson | Gwasanaethau Oedolion, Tai a Chymunedau |
| Gwella mynediad i'r sector rhentu preifat a hyrwyddo hyn i fynd i'r afael â'r angen am dai, trwy'r Gwasanaeth Ymholiadau a Thenantiaethau Landlordiaid (LLETY) ac ehangu Cynllun Prydlesu Llywodraeth Cymru. | Y Cyng. Lynda Thorne a'r Cyng. Lee Bridgeman | Gwasanaethau Oedolion, Tai a Chymunedau |
| Mynd i'r afael ag anghenion llety cymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr trwy fwrw ymlaen â'r argymhellion a nodir yn yr Asesiad Llety Sipsiwn a Theithwyr diweddaraf. | Y Cyng. Lynda Thorne a'r Cyng. Lee Bridgeman | Gwasanaethau Oedolion, Tai a Chymunedau |
| Parhau i wella ein llwybrau arbenigol ar gyfer ffoaduriaid, y rhai sy'n gadael y carchar a'r rhai sy'n gadael yr ysbyty. | Y Cyng. Lynda Thorne a'r Cyng. Lee Bridgeman | Gwasanaethau Oedolion, Tai a Chymunedau |

| Dangosyddion Perfformiad Allweddol: |
|---|
| Canran y bobl sy'n adrodd bod ganddynt fynediad i dai o ansawdd da<br>*Yn ôl Oedran, Rhyw, Ethnigrwydd, Anabledd, Cyfeiriadedd Rhywiol, Gallu Siarad Cymraeg, Pumed Amddifadedd, Ward* |

# Mynd i'r Afael â Digartrefedd

Mae digartrefedd yn parhau i fod yn un o'r arwyddion amlycaf o anghydraddoldeb yn ein dinas. Mae bod heb gartref yn effeithio ar bob agwedd ar fywyd rhywun, o'i allu i gael swydd i'w iechyd a'i berthnasoedd.

Yn dilyn pandemig Covid-19 a'r argyfwng costau byw ar ôl hynny, mae'r niferoedd uchaf erioed o unigolion a theuluoedd yn ceisio cymorth gan wasanaethau digartrefedd yng Nghaerdydd. Fodd bynnag, mae tystiolaeth[6] yn dangos bod rhai grwpiau – gan gynnwys pobl o gefndiroedd ethnig amrywiol, ffoaduriaid a cheiswyr lloches, pobl LHDTC+, y rhai sydd wedi dioddef cam-drin domestig, a'r rhai sy'n anabl neu'n profi afiechyd corfforol neu feddyliol – yn wynebu risg ychwanegol o ddigartrefedd/mynediad i dai digonol.

Felly, mae'r Cyngor wedi nodi gweledigaeth uchelgeisiol ar gyfer rhoi diwedd ar ddigartrefedd yng Nghaerdydd, a gefnogir trwy newid system gyfan ar gyfer cymorth digartrefedd gyda phwyslais ar sicrhau bod digartrefedd a darparu cymorth tai yn diwallu anghenion grwpiau amrywiol.

| Byddwn yn: | Aelod Arweiniol | Cyfarwyddiaeth Arweiniol |
|---|---|---|
| Parhau i ddatblygu gwasanaethau atal digartrefedd, gan sicrhau bod anghenion cymhleth pobl ddigartref yn cael eu diwallu. | Y Cyng. Lynda Thorne a'r Cyng. Lee Bridgeman | Gwasanaethau Oedolion, Tai a Chymunedau |
| Atal digartrefedd ymhlith pobl ifanc a sicrhau bod pobl ifanc sy'n gadael gofal yn cael eu cefnogi trwy wneud y canlynol:<br>• Wella ein gwasanaethau cyngor ymhellach a chyfryngu gan roi sylw arbennig i bobl ifanc;<br>• Ehangu ymyriadau a chymorth wedi'u targedu ar gyfer plant oedran ysgol a'u teuluoedd;<br>• Parhau i sicrhau bod llety'r Porth Pobl Ifanc yn bodloni anghenion presennol, gan adolygu a chynyddu capasiti o fewn y porth yn ôl yr angen;<br>• Datblygu cynlluniau tai cymorth newydd ar gyfer pobl ifanc ag anghenion cymhleth, gan gynnwys y cynllun a gynigiwyd i safle Citadel. | Y Cyng. Lynda Thorne a'r Cyng. Lee Bridgeman | Gwasanaethau Oedolion, Tai a Chymunedau |
| Sicrhau bod darpariaeth gwasanaethau digartrefedd a chymorth tai yn diwallu anghenion grwpiau amrywiol megis dynion sengl, y rhai o gymunedau lleiafrifoedd ethnig a'r gymuned LHDTC+, trwy gael gwell dealltwriaeth o sut mae digartrefedd yn effeithio arnynt | Y Cyng. Lynda Thorne a'r Cyng. Lee Bridgeman | Gwasanaethau Oedolion, Tai a Chymunedau |

| Dangosyddion Perfformiad Allweddol: |
|---|
| Canran yr aelwydydd sydd dan fygythiad o ddigartrefedd sy'n cael eu hatal yn llwyddiannus rhag dod yn ddigartref<br>*Yn ôl Oedran, Ethnigrwydd, Anabledd a Chyfeiriadedd Rhywiol (Targed cyffredinol 2024/25: 80%)* |
| Canran y bobl sy'n cysylltu â'r gwasanaeth digartrefedd sy'n ddigartref ar y dydd, nad ydynt wedi gofyn am gymorth atal o'r blaen *Yn ôl Oedran, Ethnigrwydd, Anabledd a Chyfeiriadedd Rhywiol (Targed cyffredinol 2024/25: <40%) 40%)* |



[6] Tai Pawb, 'Yr hawl i dai digonol yng Nghymru: y sylfaen dystiolaeth' (2021)

# Gweithio tuag at Drosglwyddo Cyfiawn i Ddinas Carbon Niwtral

Newid hinsawdd yw un o'r bygythiadau mwyaf difrifol o hyd i Gaerdydd gydag effeithiau megis cynnydd yn lefel y môr, mwy o dywydd eithafol a phrinder adnoddau naturiol a chydnerthedd ecosystemau, yn rhoi'r ddinas a lles dinasyddion mewn perygl uniongyrchol.

Cydnabyddir bod newid hinsawdd - gan gynnwys ymdrechion i liniaru yn ei erbyn - yn effeithio ar bawb ond yn aml mewn ffordd anghyfartal, gydag effeithiau anghymesur ar grwpiau penodol o'r boblogaeth mewn cymdeithas neu leoliadau. Yn gyffredinol, y poblogaethau tlotaf a mwyaf ymylol yw'r lleiaf cyfrifol am gynhyrchu nwyon tŷ gwydr ond dyma'r rhai mwyaf tebygol o fod yn agored i effeithiau negyddol newid yn yr hinsawdd. Ar ben hynny, mae pobl ar incwm isel yn llai tebygol o fod â'r adnoddau i ymateb, ymdopi ac adfer.

Mae Strategaeth Caerdydd Un Blaned Caerdydd yn nodi sut mae angen i'r Cyngor a'r gwasanaethau y mae'n eu darparu ddatgarboneiddio. Mae'n hanfodol bod ein hymateb i'r argyfwng hinsawdd yn cael ei gynnal mewn ffordd sy'n osgoi creu neu waethygu anghydraddoldebau, a defnyddio'r cyfleoedd a roddir drwy drosglwyddo i leihau, neu ddileu, anghydraddoldebau.

| Byddwn yn: | Aelod Arweiniol | Cyfarwyddiaeth Arweiniol |
|---|---|---|
| Gweithio gyda phartneriaid yn y sector cyhoeddus i asesu effeithiau'r argyfwng hinsawdd a gwendidau ar draws gwahanol ardaloedd o'r ddinas a chymunedau. | Y Cynghorydd Dan De'Ath | Cynllunio, Trafnidiaeth a'r Amgylchedd |





# AMCAN CYDRADDOLDEB 2

## CAERDYDD HYGYRCH:

Byddwn yn gweithio i sicrhau y gall pawb gymryd rhan ym mhopeth sydd gan y ddinas i'w gynnig, ni waeth beth y bo'u cefndir neu eu hamgylchiadau.

# AMCAN CYDRADDOLDEB 2:

**Caerdydd Hygyrch:** Byddwn yn gweithio i sicrhau y gall pawb gymryd rhan ym mhopeth sydd gan y ddinas i'w gynnig, ni waeth beth y bo'u cefndir neu eu hamgylchiadau.

Gall rhwystrau i gyfranogiad ymddangos mewn gwahanol ffurfiau, gan amrywio o heriau hygyrchedd corfforol a all, i rai pobl, ei gwneud hi'n anodd symud o gwmpas y ddinas yn annibynnol. Gall rhwystrau iaith a chyfathrebu hefyd atal pobl rhag cael gafael ar wybodaeth a gwasanaethau hanfodol neu gymryd rhan mewn gweithgareddau cymunedol, ac mae hygyrchedd gwybodaeth cyfyngedig, sy'n aml yn cael ei waethygu gan fylchau technoleg a gwahaniaethau digidol, hefyd yn gallu ynysu rhai cymunedau, gan rwystro eu gallu i ymgysylltu. Ar ben hynny, mae allgáu cymdeithasol, sy'n deillio o wahaniaethu a stigma, yn gallu atal rhai unigolion neu grwpiau penodol rhag cael cyfle cyfartal a mynediad i adnoddau yn y ddinas. Mae mynd i'r afael â'r heriau hyn yn gofyn am ddull cyfannol sy'n blaenoriaethu cynwysoldeb, hygyrchedd a thegwch ar draws pob agwedd ar gynllunio dinas a darparu gwasanaethau.

Mae'r Cyngor yn ymroddedig i sicrhau bod y ddinas yn parhau i fod yn hygyrch i bob unigolyn, boed yn breswylwyr, yn ymwelwyr neu'n rhai sy'n gweithio yn y ddinas. Trwy feithrin diwylliant o gynhwysiant ac amrywiaeth, ein nod yw gwneud Caerdydd yn lle croesawgar a chartrefol i bawb.

Er mwyn gwneud Caerdydd yn ddinas hygyrch, byddwn yn:

- Parhau i fod yn Ddinas sy'n Dda i Blant
- Bwrw ymlaen â Dinas Sy'n Dda i Bobl Hŷn
- Gweithio Tuag at fod yn Ddinas sy'n Deall Dementia
- Cymryd camau tuag at fod yn ddinas sy'n Deall Niwrowahaniaeth
- Cefnogi a gwerthfawrogi gofalwyr di-dâl
- Dod yn ddinas sy'n adlewyrchu egwyddorion y Confensiwn ar Ddiddymu pob math o Wahaniaethu yn erbyn Menywod
- Gwella hygyrchedd gwasanaethau a mannau'r ddinas

## Y camau y byddwn yn eu cymryd i gyflawni hyn:

### Parhau i fod yn Ddinas sy'n Dda i Blant

Yn ôl Cyfrifiad 2021, mae ychydig dros 65,000 o bobl rhwng 0 a 15 oed yng Nghaerdydd. Fel 'Dinas sy'n Dda i Blant' UNICEF, rydym wedi ymrwymo i wneud Caerdydd yn lle gwych i bob plentyn gael ei fagu. Rydym yn cydnabod bod angen gwneud mwy gyda rhai plant a phobl ifanc i'w helpu i oresgyn rhwystrau a'u cefnogi i gyflawni eu potensial. Bydd gwneud pob ysgol yn ysgol dda ac ymgorffori hawliau plant wrth lunio gwasanaethau yn rhan allweddol o'r agenda hon. Felly, mae'r Strategaeth hon yn amlinellu ein hymrwymiad i hyrwyddo hawliau plant a phobl ifanc a gwella mynediad i gyfleoedd i bob plentyn a pherson ifanc yng Nghaerdydd.

| Byddwn yn: | Aelod Arweiniol | Cyfarwyddiaeth Arweiniol |
|---|---|---|
| Gweithredu'r Cynllun Cynaliadwyedd tair blynedd ar gyfer 2024-2027 i ddatblygu Caerdydd ymhellach yn Ddinas sy'n Dda i Blant. | Y Cynghorydd Sarah Merry | Addysg a Dysgu Gydol Oes |
| Parhau i gyflwyno'r 'Pasbort i Ddinas Caerdydd' gyda Phrifysgol Caerdydd a phartneriaid i roi mynediad i'r plant a'r bobl ifanc sydd ei angen fwyaf i'r ystod eang o adnoddau a phrofiadau sydd gan y ddinas i'w gynnig, gan sicrhau bod plant sy'n derbyn gofal yn cael blaenoriaeth. | Y Cynghorydd Sarah Merry | Addysg a Dysgu Gydol Oes |

| Dangosyddion Perfformiad Allweddol: |
|---|
| Canran y bobl ifanc sy’n gwybod am eu hawliau *(Targed 2024/25: 90 % )* |
| Nifer y plant sy’n derbyn gofal sy’n ymwneud â’r Pasbort i’r Ddinas *(targed 2024/25: 50)* |

## Bwrw Ymlaen â Dinas Sy’n Dda i Bobl Hŷn

Mae’r boblogaeth yng Nghaerdydd yn heneiddio – mae mwy na 52,000 o breswylwyr yn 65+ oed (14.5 % ), a dros 7,000 yn 85+ oed. Mae’r cynnydd o ran disgwyliad oes yn newid cadarnhaol, er bod heriau ynghlwm wrtho hefyd. Er enghraifft, mae pobl 50+ oed yn fwy tebygol o fod yn anabl na phobl iau, ac mae nifer y bobl hŷn â chyflyrau sy’n cyfyngu ar fywyd, ac yn enwedig sy’n byw gyda dementia, yn cynyddu.

Bydd y nifer sy’n cael trafferth gyda gweithgareddau bywyd pob dydd yn cynyddu 17 % erbyn 2030 – 1 o bob 4 person hŷn. Mae’n hanfodol bod yr holl bobl hŷn yng Nghaerdydd yn gallu manteisio ar y cyngor, y cymorth, y gweithgareddau a’r gwasanaethau priodol i’w helpu i gadw’n iach ac yn annibynnol.

Fel Dinas sy’n Dda i Bobl Hŷn, rydym yn ymroddedig i wneud y ddinas yn lle gwych i heneiddio. Mae hyn yn cynnwys cefnogi pobl i fyw’n annibynnol, cael mynediad i gyflogaeth a chymryd rhan yn eu cymunedau.

| Byddwn yn: | Aelod Arweiniol | Cyfarwyddiaeth Arweiniol |
|---|---|---|
| Gweithio gyda phartneriaid i gyflawni ein hymrwymiad i fod yn Ddinas Sy'n Dda i Bobl Hŷn, drwy:<br><br>• Chwarae rhan lawn yn Rhwydwaith Dinasoedd Sy'n Dda i Bobl Hŷn Sefydliad Iechyd y Byd;<br><br>• Cynhyrchu adroddiad blynyddol ar gynnydd Cynllun Gweithredu Caerdydd Sy'n Dda i Bobl Hŷn;<br><br>• Mesur ein llwyddiant drwy fframwaith gwerthuso ledled y ddinas a dangosyddion perfformiad allweddol. | Y Cynghorwyr Julie Sangani a Leonora Thomson | Gwasanaethau Oedolion, Tai a Chymunedau |
| Annog cyflogwyr i ymrwymo i'r cynllun Addewid Cyflogwyr Sy'n Dda i Bobl Hŷn a weithredir gan y Centre for Ageing Better a datblygu adrodd sy'n benodol i Gaerdydd i olrhain cynnydd. | Y Cynghorwyr Julie Sangani a Leonora Thomson | Gwasanaethau Oedolion, Tai a Chymunedau |
| Rhoi cyfleoedd i bawb gymryd rhan yn eu cymuned ac, yn arbennig, gefnogi pobl hŷn i gadw'n brysur ac yn gysylltiedig. | Y Cynghorwyr Julie Sangani a Leonora Thomson | Gwasanaethau Oedolion, Tai a Chymunedau |
| Gwrando ar leisiau ein dinasyddion a chynyddu eu dewis yn y ddarpariaeth gofal trwy wneud y canlynol:<br><br>• Wella ein hymgysylltiad â phobl hŷn, chwilio am fewnbwn ac adborth ystyrlon;<br><br>• Adolygu'r defnydd cyfredol o'n gwasanaethau a chymryd camau i sicrhau bod holl gymunedau Caerdydd yn ymwybodol o'n gwasanaethau, ac yn cael mynediad iddynt. | Y Cynghorwyr Julie Sangani a Leonora Thomson | Gwasanaethau Oedolion, Tai a Chymunedau |

| Dangosyddion Perfformiad Allweddol: |
|---|
| Nifer y digwyddiadau a gynhaliwyd i gefnogi pobl i gadw'n heini ac yn symudol *(Targed 2024/25: 500)* |
| Nifer y cyfranogwyr mewn digwyddiadau a gynhaliwyd i gefnogi pobl i gadw'n heini ac yn symudol *(Targed 2024/25: 8,000)* |
| Nifer y digwyddiadau a gynhaliwyd i gefnogi pobl i barhau i fod yn gysylltiedig ac aros yn gymdeithasol *(Targed 2024/25: 1,400)* |
| Nifer y cyfranogwyr mewn digwyddiadau a gynhaliwyd i gefnogi pobl i barhau i fod yn gysylltiedig ac aros yn gymdeithasol *(Targed 2024/25: 15,000)* |

# Gweithio Tuag at fod yn Ddinas sy'n Deall Dementia

Yn ogystal â newid bywyd y person sydd â dementia, mae dementia'n cael effaith sylweddol ar fywydau perthnasau, ffrindiau a chymdogion sydd yn aml yn cyflawni rolau gofalu.

Mae tua 5,000 o bobl yn byw â dementia yn ardal Bwrdd Iechyd Lleol Caerdydd a'r Fro. Amcangyfrifir bod tua dau draean o bobl sy'n byw â dementia yn byw yn y gymuned, gyda thraean yn byw mewn cartrefi gofal nyrsio neu breswyl. Felly, mae cyfran fawr o bobl yn byw heb ddiagnosis ffurfiol, sy'n amharu ar eu gallu i fanteisio ar gymorth a gwasanaethau perthnasol.

Bydd nifer y bobl sy'n byw â dementia yn cynyddu 30 % erbyn 2030 a 41.1 % yn achos dementia difrifol. Fel Dinas sy'n Deall Dementia, byddwn yn gweithio i wella'r cymorth sydd ar gael i bobl sy'n byw â dementia a'u teuluoedd. Bydd hyn yn cynnwys amrywiaeth o fentrau, gan gynnwys recriwtio Cenhadon Deall Dementia gwirfoddol a chefnogi pobl â dementia i aros gartref lle bynnag y bo modd.



| Byddwn yn: | Aelod Arweiniol | Cyfarwyddiaeth Arweiniol |
|---|---|---|
| Gweithio gydag ystod eang o bartneriaid i gyflawni'n hymrwymiad i fod yn Ddinas sy'n Deall Dementia, trwy:<br><br>• Recriwtio Cenhadon gwirfoddol Sy'n Deall Dementia, i annog busnesau lleol i fod yn ystyriol o ddementia.<br><br>• Mesur ein llwyddiant drwy fframwaith gwerthuso ledled y ddinas a dangosyddion perfformiad allweddol;<br><br>• Cynhyrchu adroddiad blynyddol am gynnydd. | Y Cynghorwyr Julie Sangani a Leonora Thomson | Gwasanaethau Oedolion, Tai a Chymunedau |
| Cefnogi pobl â dementia i aros gartref lle bynnag y bo modd trwy:<br><br>• Adolygu arferion gorau wrth gefnogi pobl â dementia i fyw yn y gymuned a defnyddio hyn i lywio comisiynu trefniadau fframwaith newydd ar gyfer cartrefi gofal;<br><br>• Adolygu'r hyfforddiant dementia sydd ei angen er mwyn sicrhau bod staff yn gallu teilwra'r gofal a'r cymorth cywir i'r unigolyn a'i deulu yn eu cartref;<br><br>• Gweithredu ac ymgorffori rhwydwaith dysgu i ddarparwyr cartrefi gofal rannu arfer da a dysgu am ofal dementia er mwyn gwella ansawdd ar draws y sector cartrefi gofal. | Y Cynghorwyr Julie Sangani a Leonora Thomson | Gwasanaethau Oedolion, Tai a Chymunedau |
| Nod y Rhaglen Dementia yw codi ymwybyddiaeth o ddementia wrth weithio i ddatblygu gwasanaethau yn y gymuned sy'n galluogi mynediad amserol i ddiagnosis a gofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. | Y Cynghorwyr Julie Sangani a Leonora Thomson | Gwasanaethau Oedolion, Tai a Chymunedau |

| Dangosyddion Perfformiad Allweddol: |
|---|
| Nifer y digwyddiadau Dinas sy'n Deall Dementia digidol ac wyneb yn wyneb a gynhaliwyd *(Targed 2024/25: 2,300)* |

# Cymryd Camau tuag at fod yn Ddinas sy'n Deall Niwrowahaniaeth

Mae tua 15%, neu 1 o bob 7 o bobl y DU, yn niwrowahanol, sy'n golygu eu bod yn gweld y byd mewn ffordd fwy unigryw nag eraill. Mae pobl sydd â nodweddion a chyflyrau niwrowahanol yn wynebu amrywiaeth o heriau ar draws ein cymdeithas, gan gynnwys dod o hyd i gyflogaeth, tebygolrwydd uwch o ddiagnosis iechyd meddwl, a thrafferthion wrth gael mynediad i wasanaethau cyhoeddus. Fodd bynnag, mae niwrowahaniaeth yn dod â llawer o gryfderau a phatrymau meddwl unigryw sydd o fudd i'n cymunedau a'n gweithleoedd.

Er mwyn bod yn ddinas sy'n agored ac yn hygyrch i bawb, mae'n amlwg y bydd rhaid i Gaerdydd ddod yn ddinas sy'n deall niwrowahaniaeth. Bydd hyn yn cynnwys cael gwared ar y rhwystrau sy'n atal y rhai sydd â nodweddion niwrowahanol rhag cymryd rhan yn y gymdeithas wrth gynyddu ymwybyddiaeth o niwrowahaniaeth ledled y ddinas, a gwneud Caerdydd yn fan lle mae pobl niwrowahanol yn cael eu cefnogi i fyw'n dda.

| Byddwn yn: | Aelod Arweiniol | Cyfarwyddiaeth Arweiniol |
|---|---|---|
| Cynhyrchu Strategaeth Deall Niwrowahaniaeth sy'n sicrhau bod ein gwasanaethau'n adnabod ac yn diwallu anghenion dinasyddion niwrowahanol. | Y Cynghorwyr Julie Sangani a Leonora Thomson | Gwasanaethau Oedolion, Tai a Chymunedau |
| Gwella gwasanaethau i bobl ag awtistiaeth trwy:<br><br>• Adolygu effeithiolrwydd yr hyfforddiant a sicrhau bod yr holl staff yn gallu defnyddio'r lefel briodol o hyfforddiant i ddiwallu anghenion pobl awtistig;<br><br>• Ymgorffori'r gwasanaeth niwroamrywiaeth arbenigol o fewn y Gwasanaethau Oedolion ac adrodd am ganlyniadau. | Y Cynghorwyr Julie Sangani a Leonora Thomson | Gwasanaethau Oedolion, Tai a Chymunedau |
| Gweithio gyda phartneriaid i sicrhau bod pobl sy'n niwrowahanol yn cael y cymorth cywir ar yr adeg gywir, gan adeiladu ein darpariaeth gwasanaeth bresennol drwy'r canlynol:<br><br>• Cryfhau cefnogaeth i sicrhau bod y cymorth cywir ar gael ar yr adeg gywir.<br><br>• Gwella darpariaeth gwasanaeth ADHD (Anhwylder Diffyg Canolbwyntio a Gorfywiogrwydd);<br><br>• Trefniadau pontio sy'n galluogi taith rwydd i bobl ifanc ddod yn oedolion;<br><br>• Bodloni'r canllawiau cenedlaethol newydd o ran gofynion niwroamrywiaeth;<br><br>• Gwella amseroldeb a mynediad i asesu a diagnosis;<br><br>• Gweithredu'r Cod Ymarfer. | Y Cynghorwyr Julie Sangani a Leonora Thomson | Gwasanaethau Oedolion, Tai a Chymunedau |

## Cefnogi a Gwerthfawrogi Gofalwyr Di-dâl

Mae gofalwyr di-dâl yn chwarae rhan hanfodol mewn cymunedau drwy ddarparu gofal a chymorth i bobl a fyddai fel arall angen ymyrraeth iechyd neu ofal cymdeithasol. Yn ôl Cyfrifiad 2021, mae 8.4% o drigolion Caerdydd (5+ oed) yn darparu gofal di-dâl bob wythnos, gyda'r tebygolrwydd o ddarparu gofal o'r fath yn gyffredinol yn cynyddu gydag oedran.

Gofalwyr di-dâl yw asgwrn cefn teuluoedd, gan helpu'r rhai y maent yn gofalu amdanynt i fyw bywydau boddhaus a gwneud cyfraniad sylweddol i gymdeithas. Fodd bynnag, heb gefnogaeth ddigonol, gall gofynion rhoi gofal effeithio'n negyddol ar iechyd a lles gofalwyr, gan gyfyngu ar eu gallu i gymryd rhan mewn gwaith cyflogedig, bywyd teuluol a gweithgareddau cymunedol.

Mewn ymateb, mae'r Cyngor wedi ymrwymo i gydnabod rôl amhrisiadwy gofalwyr di-dâl, gan sicrhau bod ganddynt fynediad at y gefnogaeth sydd ei hangen arnynt i barhau â'u rôl a chael bywyd ochr yn ochr â gofalu.

| Byddwn yn: | Aelod Arweiniol | Cyfarwyddiaeth Arweiniol |
|---|---|---|
| Gwrando ar ofalwyr a theuluoedd di-dâl drwy gyd-gynhyrchu gwasanaethau gyda gofalwyr, gwella trefniadau ar gyfer seibiant a chyngor. | Y Cynghorwyr Julie Sangani a Leonora Thomson | Gwasanaethau Oedolion, Tai a Chymunedau |
| Gwella gwasanaethau cynghori a chefnogaeth i ofalwyr drwy lansio sianel ddosbarthu ar gyfer gwybodaeth a chyfeirio at wasanaethau, cefnogaeth a gweithgareddau wedi'u targedu. | Y Cynghorwyr Julie Sangani a Leonora Thomson | Gwasanaethau Oedolion, Tai a Chymunedau |
| Cofnodi boddhad gofalwyr di-dâl â'r cymorth sydd ar gael. | Y Cynghorwyr Julie Sangani a Leonora Thomson | Gwasanaethau Oedolion, Tai a Chymunedau |



# Dod yn Ddinas sy'n Adlewyrchu Egwyddorion y Confensiwn ar Ddiddymu pob math o Wahaniaethu yn erbyn Menywod

Er bod llawer o welliannau wedi'u gwneud o ran cydraddoldeb rhywiol yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae anghydraddoldebau o hyd i fenywod. Nododd ein Hasesiad Anghenion Cydraddoldeb fod menywod yn fwy tebygol o fod yn economaidd anweithgar, eu bod yn fwy tebygol o fod mewn galwedigaethau sydd â chyflog is a'u bod yn fwy tebygol o fod yn ofalwyr di-dâl. Nododd yr asesiad ymhellach fod menywod dan anfantais arbennig mewn meysydd fel iechyd meddwl a mynediad i ofal iechyd a'u bod yn fwy tebygol o ddioddef trais, cam-drin domestig a thrais rhywiol.

Er mwyn goresgyn anghydraddoldebau fel y rhain, mae Cyngor Caerdydd wedi cytuno i ddod yn ddinas sy'n adlewyrchu egwyddorion y Confensiwn ar Ddileu pob math o Wahaniaethu yn erbyn Menywod (CEDAW). Bydd hyn yn cynnwys rhaglen waith bwrpasol i hyrwyddo cydraddoldeb rhywiol, amddiffyn hawliau menywod a dileu pob math o arferion gwahaniaethol yn erbyn menywod. Byddwn yn herio ac yn newid unrhyw ddiwylliant o rywiaeth a chasineb at fenywod trwy weithgareddau ac ymyriadau sy'n mynd i'r afael ag ymddygiadau niweidiol a thrwy barhau i roi atebolrwydd am gam-drin ar y rhai sy'n achosi niwed.



| Byddwn yn: | Aelod Arweiniol | Cyfarwyddiaeth Arweiniol |
|---|---|---|
| Rhoi cyngor a gwybodaeth trwy'r Hybiau a'r Llyfrgelloedd cymunedol ledled Caerdydd i helpu menywod a merched i dderbyn yr holl fudd-daliadau y mae ganddynt hawl iddynt, gan gynnwys llyfryn hawliau. | Y Cynghorwyr Julie Sangani a Leonora Thomson | Addysg a Dysgu Gydol Oes, Gwasanaethau Oedolion, Tai a Chymunedau |
| Parhau i archwilio a mynd i'r afael ag anghydraddoldeb rhwng y rhywiau i ferched a menywod ifanc yng Nghaerdydd yn dilyn cyhoeddi'r adroddiad 'Voices for Change: Addressing Gender Equity in Cardiff' ym mis Mawrth 2024. | Y Cynghorwyr Julie Sangani a Leonora Thomson | Addysg a Dysgu Gydol Oes |
| Parhau i gefnogi'r fenter urddas mislif lle mae cynhyrchion mislif ecogyfeillgar a/neu amldro am ddim ar gael ym mhob ysgol sydd â dysgwyr benywaidd, gan gynnwys archebion pwrpasol ar gyfer ysgolion arbennig a dysgwyr AHY mewn lleoliadau eraill, ac ar draws ystod o leoliadau cymunedol. | Y Cynghorwyr Julie Sangani a Leonora Thomson | Addysg a Dysgu Gydol Oes, Gwasanaethau Oedolion, Tai a Chymunedau |
| Cyflawni'r Strategaeth Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol 2023-28 a'r cynllun gweithredu gyda phartneriaid. | Y Cyng. Lynda Thorne a'r Cyng. Lee Bridgeman | Gwasanaethau Oedolion, Tai a Chymunedau |
| Sicrhau bod mwy o 'Fannau Diogel' ledled Caerdydd, gan gynnwys menywod a merched wrth eu creu. | Y Cyng. Lynda Thorne a'r Cyng. Lee Bridgeman | Perfformiad a Phartneriaethau, a Gwasanaethau Oedolion, Tai a Chymunedau |
| Darparu dulliau partneriaeth newydd a chyffrous i fynd i'r afael â diogelwch menywod, merched a phobl eraill sy'n agored i niwed, gan gynnwys:<br>• Prosiect Bws Diogelwch Myfyrwyr Heddlu De Cymru, sy'n cefnogi pobl sy'n agored i niwed yn economi'r nos;<br>• Gweithio gyda Caerdydd AM BYTH i ehangu nifer y 'Mannau Diogel' yn y ddinas lle gall pobl geisio cymorth a lloches os ydynt yn teimlo dan fygythiad neu ofn;<br>• Cefnogi Caerdydd AM BYTH ar gyflawni Siarter Diogelwch Menywod ar gyfer canol y ddinas, sy'n nodi nifer o ymrwymiadau i fusnesau yn economi'r nos. | Y Cyng. Lynda Thorne a'r Cyng. Lee Bridgeman | Perfformiad a Phartneriaethau |

| Dangosyddion Perfformiad Allweddol: |
|---|
| Canran y menywod sy'n teimlo'n ddiogel (gartref, wrth gerdded yn yr ardal leol ac wrth deithio) |

## Gwella Hygyrchedd Gwasanaethau a Mannau'r Ddinas

Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i nodi a mynd i'r afael â rhwystrau i hygyrchedd, boed yn ffisegol, yn ddigidol neu'n gymdeithasol, er mwyn creu amgylchedd mwy hygyrch a chroesawgar i bawb. Mae'r dull hwn yn tynnu sylw at bwysigrwydd ymgynghori â chymunedau a lleisiau nad ydynt yn cael eu clywed yn aml er mwyn deall eu hanghenion a'u profiadau penodol, ysgogi newid ystyrlon a meithrin dinas sy'n wirioneddol hygyrch i bawb.

| Byddwn yn: | Aelod Arweiniol | Cyfarwyddiaeth Arweiniol |
|---|---|---|
| Mynd i'r afael ag allgáu digidol a llythrennedd digidol trwy:<br><br>• Sicrhau wrth ddylunio gwasanaethau digidol, ein bod yn dileu rhwystrau sy'n atal pobl rhag cael mynediad i wasanaethau;<br><br>• Rhoi cymorth i grwpiau cymunedol lleol sy'n gweithio i wella cynhwysiant digidol yn yr ardal. | Y Cynghorydd Chris Weaver | Adnoddau |
| Gweithio gyda phartneriaid i archwilio'r dirwedd bresennol a'r galw am weithgareddau di-alcohol yng Nghaerdydd, gan gynnwys hyrwyddo ymgyrch 'Fy niod, Fy newis'. | Y Cyng. Lynda Thorne a'r Cyng. Lee Bridgeman | Perfformiad a Phartneriaethau |
| Hwyluso gwell mynediad i gyfleusterau ysgol mewn partneriaeth ag ysgolion eraill a/neu sefydliadau partner, fel rhan o ddull Ysgolion Bro. | Y Cynghorydd Sarah Merry | Addysg a Dysgu Gydol Oes |
| Ehangu cyfranogiad a hygyrchedd wrth gynllunio datblygiadau yn y ddinas a sicrhau bod llwyfannau ymgysylltu priodol a llais cymunedol ar gael wrth ddylunio datblygiadau yn y ddinas, gan roi sylw penodol i wella cyfranogiad plant a phobl ifanc. | Y Cynghorydd Dan De'Ath | Cynllunio, Trafnidiaeth a'r Amgylchedd |
| Sicrhau bod adeiladau a strydoedd a mannau canlyniadol yn hygyrch i bob defnyddiwr drwy ymgorffori egwyddorion dylunio cynhwysol a chynllunio trefol ystyriol o rywedd yn y Cynllun Datblygu Lleol Newydd. | Cllr Dan De'Ath | Planning, Transport & Environment |

| Byddwn yn: | Aelod Arweiniol | Cyfarwyddiaeth Arweiniol |
| --- | --- | --- |
| Cefnogi dyheadau trafnidiaeth gyhoeddus yn y Papur Gwyn Trafnidiaeth trwy wneud y canlynol:<br><br>• Cyflawni'r Strategaeth Blaenoriaeth Bysus;<br><br>• Datblygu'r Rhaglen Coridorau Bysus Strategol drwy symud ymlaen ag achosion busnes a gwaith dylunio ar gyfer darparu Coridor Trafnidiaeth Gynaliadwy Dwyrain-Orllewin a Choridor Bws y Gogledd erbyn 2026;<br><br>• Datblygu'r Rhaglen Rhwydwaith Bysus Lleol a fydd yn darparu prosiectau gwella ledled y ddinas i fynd i'r afael â meysydd problemus, gwella blaenoriaeth bysus ac amseroedd teithio lle bo angen dros y pum mlynedd nesaf. | Y Cynghorydd Dan De'Ath | Cynllunio, Trafnidiaeth a'r Amgylchedd |
| Gweithio mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru, Trafnidiaeth Cymru ac Uned Gyflawni Comisiwn Trafnidiaeth Burns i ddylunio a darparu Rhwydwaith Tramiau Caerdydd a'r Rhanbarth (Metro), a fydd yn cynnwys:<br><br>• Cam 1 Metro Cledrau Croesi Canol y Ddinas i Fae Caerdydd erbyn 2028;<br><br>• Cwblhau Gorsaf Butetown ac uwchraddio Gorsaf Bae Caerdydd erbyn mis Rhagfyr 2026;<br><br>• Nodi manteision strategol Parc Caerdydd a chefnogi cynnydd yn amodol ar ganiatâd cynllunio i'r datblygiad;<br><br>• Cyflwyno gorsaf newydd ar Heol y Crwys erbyn | Y Cynghorydd Dan De'Ath | Cynllunio, Trafnidiaeth a'r Amgylchedd |

| Dangosyddion Perfformiad Allweddol: |
| --- |
| Canran y bobl sy'n cytuno bod cysylltu â'r Cyngor yn syml<br><br>*Yn ôl Oedran, Rhyw, Ethnigrwydd, Anabledd, Cyfeiriadedd Rhywiol, Gallu Siarad Cymraeg, Pumed Amddifadedd, Ward* |

# AMCAN CYDRADDOLDEB 3

## CAERDYDD GYNHWYSOL:

Byddwn yn gwneud Caerdydd yn ddinas lle mae gwahaniaethau'n cael eu deall a'u dathlu, a lle mae pob cymuned yn teimlo ei bod yn perthyn.



# AMCAN CYDRADDOLDEB 3:

**Caerdydd Gynhwysol:** Byddwn yn gwneud Caerdydd yn ddinas lle mae gwahaniaethau'n cael eu deall a'u dathlu, a lle mae pob cymuned yn teimlo ei bod yn perthyn.

Gyda hanes balch o amrywiaeth a darparu amgylchedd croesawgar, bydd y Cyngor yn parhau i weithio gyda phartneriaid i feithrin cysylltiadau da a chreu mannau lle mae amrywiaeth yn cael ei groesawu a'i ddathlu.

Mae amcan y Cyngor yn cyd-fynd â helpu i gyflawni Rhaglen Cydlyniant Cymunedol Llywodraeth Cymru. Bydd hyn yn sicrhau bod pob preswylydd a chymuned yn y ddinas yn teimlo ymdeimlad o berthyn, ni waeth beth y bo'u cefndir neu wahaniaethau, a'u bod yn teimlo eu bod wedi'u grymuso i gyfrannu at fywyd yn y ddinas.

Er mwyn gwneud Caerdydd yn ddinas gynhwysol, byddwn yn:

- Hyrwyddo cydlyniant cymunedol
- Cefnogi ffoaduriaid a cheiswyr lloches
- Dod yn Gaerdydd wrth-hiliol
- Gwella canlyniadau i bobl LHDTC+
- Dod yn Gaerdydd ddwyieithog

## Y camau y byddwn yn eu cymryd i gyflawni hyn:

### Hyrwyddo Cydlyniant Cymunedol

Mae gan Gaerdydd hanes balch o gynhwysiant a chydlyniant cymunedol. Y brifddinas yw'r awdurdod lleol mwyaf ethnig amrywiol yng Nghymru ac un o'r cymunedau ethnig amrywiol hynaf ym Mhrydain, gyda dros 80 o ieithoedd yn cael eu defnyddio. Yn arolwg Ansawdd Bywyd mewn Dinasoedd Ewropeaidd diweddaraf y Comisiwn Ewropeaidd[7], Caerdydd oedd y ddinas orau i fewnfudwyr o wledydd eraill a theuluoedd â phlant ifanc.Roedd y ddinas hefyd ymhlith y 10 dinas orau i aelodau o'r gymuned LHDTC+ fyw, gan ennill y chweched lle ar y rhestr.

Gan gydnabod effaith niweidiol rhannu a gwahanu, bydd y Cyngor yn parhau i hyrwyddo teimlad o berthyn ac yn helpu cymunedau i werthfawrogi a pharchu pobl o wahanol gefndiroedd ac amgylchiadau. Bydd hyn yn cael ei gyflawni trwy weithgareddau cydlynol dan arweiniad partneriaid i fynd i'r afael â materion troseddau casineb lleol a chodi ymwybyddiaeth o gymorth i ddioddefwyr troseddau casineb trwy ymgyrchoedd gwrth-gasineb. Yn ogystal, bydd y Cyngor yn dod â grwpiau cymunedol a sefydliadau'r trydydd sector at ei gilydd i helpu i adeiladu cymunedau cryf.

[7] Adroddiad am Ansawdd Bywyd mewn Dinasoedd Ewropeaidd, 2023

| Byddwn yn: | Aelod Arweiniol | Cyfarwyddiaeth Arweiniol |
|---|---|---|
| Darparu'r Gronfa Cydlyniad, gwahodd ceisiadau gan sefydliadau llawr gwlad i gyflwyno gweithgareddau sy'n cryfhau cydlyniad yn y ddinas. | Y Cynghorwyr Julie Sangani a Leonora Thomson | Perfformiad a Phartneriaethau |
| Parhau i weithio gyda phartneriaid i fynd i'r afael â phob math o droseddau casineb drwy gefnogi mentrau fel ymgyrch Troseddau Casineb Cymru. | Y Cynghorwyr Julie Sangani a Leonora Thomson | Perfformiad a Phartneriaethau |
| Rhoi mwy o sylw i fodelau rôl o gefndiroedd du a lleiafrifoedd ethnig a chynyddu addysg gyhoeddus am Hanes Pobl Dduon trwy raglennu digwyddiadau megis Darlith Betty Campbell flynyddol. | Y Cynghorwyr Julie Sangani a Leonora Thomson | Perfformiad a Phartneriaethau |
| Mabwysiadu arfer gorau cenedlaethol ar gyfer adeiladu cymunedau cryfach drwy feithrin cysylltiadau ystyrlon drwy ddigwyddiadau 'Diwrnod Gyda'n Gilydd' a 'Mwy yn Gyffredin'. | Y Cynghorwyr Julie Sangani a Leonora Thomson | Perfformiad a Phartneriaethau |
| Llunio adroddiad blynyddol sy'n tynnu sylw at y prif weithgareddau a chyflawniadau sy'n gysylltiedig â chydlyniant cymunedol i ategu adroddiadau chwarterol Cynllun Cydlyniant Llywodraeth Cymru. | Y Cynghorwyr Julie Sangani a Leonora Thomson | Perfformiad a Phartneriaethau |

| Dangosyddion Perfformiad Allweddol: |
|---|
| Canran y bobl sy'n cytuno bod eu cymdogaeth yn fan lle mae pobl yn cyd-dynnu'n dda ac yn helpu ei gilydd |
| Nifer y bobl sy'n mynychu digwyddiadau cydlyniant cymunedol |



# Cefnogi Ffoaduriaid a Cheiswyr Lloches

Mae ffoaduriaid a cheiswyr lloches yn aml yn cyrraedd Caerdydd yn dilyn profiadau trawmatig yn eu gwledydd gwreiddiol ac ar eu teithiau i'r DU. Mae angen cymorth ar ffoaduriaid, mudwyr a cheiswyr lloches wrth iddynt addasu i fywyd newydd ac mae data'n awgrymu eu bod yn wynebu nifer o heriau, gan gynnwys iechyd meddwl gwaeth oherwydd y trawma a brofwyd cyn neu yn ystod teithio.

Bydd Caerdydd yn parhau i arwain fel Dinas Noddfa wrth groesawu ffoaduriaid a cheiswyr lloches i adeiladu bywydau newydd ac ymgartrefu yng Nghymru, a bydd amrywiaeth a bywiogrwydd diwylliannol y ddinas yn parhau i gael eu dathlu. Mae hyn yn cynnwys gweithio mewn partneriaeth i ddarparu mynediad i'r llety, yr iechyd, y gyflogaeth a'r gwasanaethau cynghori arbenigol sydd eu hangen.

| Byddwn yn: | Aelod Arweiniol | Cyfarwyddiaeth Arweiniol |
|---|---|---|
| Parhau i arwain ymateb ledled y ddinas i groesawu ffoaduriaid a cheiswyr lloches, gan gynnwys:<br>• Cefnogi mynediad i lety, addysg, cyflogaeth a gwasanaethau iechyd;<br>• Rheoli effaith gwasgariad lloches carlam;<br>• Datblygu gwell gwasanaeth cyngor a chymorth ar gyfer ffoaduriaid a cheiswyr lloches;<br>• Gweithio gyda Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU i sicrhau tegwch cyllido a darparu dull gweithredu ledled Cymru. | Y Cynghorwyr Julie Sangani a Leonora Thomson | Perfformiad a Phartneriaethau |
| Parhau i gefnogi a chynnal hawliau a buddiannau plant a phobl ifanc ar eu pennau eu hunain sy'n ceisio lloches. | Y Cyng. Ash Lister a'r Cyng. Peter Bradbury | Gwasanaethau Plant |
| Estyn gwaith Ysgolion Noddfa i rwydwaith ehangach o ysgolion a chefnogi cyfranogiad cymunedau ffoaduriaid a cheiswyr lloches. | Y Cynghorydd Sarah Merry | Addysg a Dysgu Gydol Oes |
| Estyn gwaith Llyfrgelloedd Noddfa i rwydwaith ehangach o Hybiau rhanbarthol, gan gynnig cefnogaeth a chyfranogiad cymunedau ffoaduriaid a cheiswyr lloches. | Y Cyng. Lynda Thorne a'r Cyng. Lee Bridgeman | Gwasanaethau Oedolion, Tai a Chymunedau |

| Dangosyddion Perfformiad Allweddol: |
|---|
| Nifer yr Ysgolion Noddfa yng Nghaerdydd |
| Nifer y Llyfrgelloedd Noddfa yng Nghaerdydd |

## Dod yn Gaerdydd Wrth-hiliol

Mae dros un rhan o bump (21.2 %) o drigolion y ddinas yn perthyn i bobl o gefndiroedd ethnig amrywiol a Chaerdydd yw'r awdurdod lleol mwyaf amrywiol yng Nghymru o bell ffordd. Mae Caerdydd yn parhau i fod yn ymrwymedig i fynd i'r afael â phob math o droseddau casineb a bydd yn gweithio'n agos gyda phartneriaid i ddileu hiliaeth ac anghydraddoldeb hil.

Mae **Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol (2022)**, Llywodraeth Cymru, yn ogystal ag Adroddiad Tasglu Cydraddoldeb Hil Caerdydd (2022), yn cydnabod yr heriau penodol i fenywod o gefndiroedd ethnig amrywiol, ffoaduriaid a cheiswyr lloches, yn ogystal â theuluoedd Sipsiwn, Roma a Theithwyr. Bydd cyflawni argymhellion y Tasglu Cydraddoldeb Hiliol a chefnogi'r gwaith o gyflawni ymrwymiadau perthnasol yn lleol yng Nghynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol yn gwneud cyfraniad sylweddol at gyflawni Caerdydd wrth-hiliol. Rhaid i'r gwaith dynnu ar brofiad bywyd cymunedau ethnig amrywiol i fynd i'r afael â gwahaniaethau hiliol a hyrwyddo cydraddoldeb.

| Byddwn yn: | Aelod Arweiniol | Cyfarwyddiaeth Arweiniol |
|---|---|---|
| Cyhoeddi adolygiad diwedd blwyddyn blynyddol o'r cynnydd yn erbyn argymhellion Tasglu Cydraddoldeb Hil Caerdydd. | Y Cyng. Huw Thomas, y Cyng. Leonora Thomson a'r Cyng. Julie Sangani | Perfformiad a Phartneriaethau |
| Nodi a datblygu camau gweithredu perthnasol awdurdodau lleol yn erbyn Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-Hiliol Llywodraeth Cymru. | Y Cyng. Huw Thomas, y Cyng. Leonora Thomson a'r Cyng. Julie Sangani | Perfformiad a Phartneriaethau |
| Sicrhau bod trafodaethau parhaus gyda Cadw yn parhau i gydlynu'n effeithiol y camau nesaf ar gyfer cerflun Syr Thomas Picton yn unol â'u canllawiau cenedlaethol ac fel rhan o adolygiad ehangach o waith a chynigion yn Neuadd y Ddinas. | Y Cynghorydd Jennifer Burke | Datblygu Economaidd |

## Gwella Canlyniadau i Bobl LHDTC+

Mae Caerdydd wedi ymrwymo i fod yn ddinas lle mae'r gymuned LHDTC+ yn teimlo'n ddiogel ac yn cael ei chroesawu ac yn ddiweddar mae wedi'i rhestru'n un o ddinasoedd gorau Ewrop ar gyfer pobl sy'n LHDTC+. Yng Nghyfrifiad 2021, nododd dros 5 % o drigolion Caerdydd (16+ oed) â chyfeiriadedd rhywiol nad yw'n syth/heterorywiol, y drydedd gyfran uchaf ar draws y Dinasoedd Craidd yng Nghymru a Lloegr, ac yn uwch na'r ffigurau cyfartalog ar gyfer Cymru (3.0 %) a Chymru a Lloegr (3.2 %).Yn ogystal, er bod argaeledd data ac ansawdd data yn fater hysbys, mae gan oddeutu 0.7 % o breswylwyr Caerdydd 16+ oed hunaniaeth rhywedd nad yw'r un peth â'r rhyw a gofrestrwyd adeg eu geni.

Trwy gydol y flwyddyn, mae Caerdydd yn cynnal amrywiaeth o ddigwyddiadau a dathliadau LHDTC+, gan gynnwys Pride Cymru, sy'n dod â phobl o bob cefndir at ei gilydd i ddathlu amrywiaeth a helpu pobl i deimlo eu bod yn cael eu croesawu, eu parchu a'u grymuso i fyw yn wir iddynt eu hunain. Byddwn yn parhau i feithrin diwylliant o barch a derbyn, ni waeth beth y bo'u cyfeiriadedd rhywiol neu hunaniaeth rhywedd, i gryfhau cydraddoldeb LHDTC+ ledled y ddinas.

| Byddwn yn: | Aelod Arweiniol | Cyfarwyddiaeth Arweiniol |
|---|---|---|
| Cryfhau cydraddoldeb i'r gymuned LHDTC+ drwy adolygu'r camau gweithredu perthnasol ar gyfer awdurdodau lleol a nodir yng Nghynllun Gweithredu LHDTC+ Llywodraeth Cymru ar gyfer Cymru[8]. | Y Cynghorwyr Julie Sangani a Leonora Thomson | Perfformiad a Phartneriaethau |
| Adeiladu ar ein Statws Aur Stonewall a chadw ein safle fel un o Gyflogwyr 100 Gorau Stonewall. | Y Cyng. Chris Weaver, y Cyng. Leonora Thomson a'r Cyng. Julie Sangani | Adnoddau |
| Parhau i weithio gyda phartneriaid fel Dinas Llwybr Cyflym gyda'r nodau canlynol:<br>• Sicrhau dim heintiau HIV newydd;<br>• Dileu'r stigma sy'n gysylltiedig â HIV;<br>• Gwella ansawdd bywyd pobl sy'n byw â HIV. | Y Cynghorwyr Julie Sangani a Leonora Thomson | Gwasanaethau Oedolion, Tai a Chymunedau |
| Hyrwyddo gŵyl Pride Cymru bob blwyddyn, fel dathliad o gydraddoldeb ac amrywiaeth. | Y Cynghorwyr Julie Sangani a Leonora Thomson | Datblygu Economaidd |

## Dod yn Gaerdydd Ddwyieithog

Mae Strategaeth Caerdydd Ddwyieithog yn gosod gweledigaeth uchelgeisiol ar gyfer y ddinas, gan gydnabod bod y Gymraeg yn rhan bwysig o les diwylliannol a'r rôl gynrychioliadol bwysig sydd gan brifddinas y genedl. Fel mae Cyfrifiad 2021 yn ei gwneud yn glir, Caerdydd yw un o'r ychydig ardaloedd yng Nghymru i weld twf yn nifer y siaradwyr Cymraeg gyda 12.2 % o boblogaeth breswyl Caerdydd (3+ oed) yn gallu siarad Cymraeg.

Bydd Strategaeth Caerdydd Ddwyieithog bum mlynedd y Cyngor yn hyrwyddo ac yn hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg ac yn cynyddu nifer y siaradwyr a dysgwyr Cymraeg yng Nghaerdydd i sicrhau bod Caerdydd yn chwarae ei rhan wrth gefnogi gweledigaeth Llywodraeth Cymru o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

| Byddwn yn: | Aelod Arweiniol | Cyfarwyddiaeth Arweiniol |
|---|---|---|
| Cyflawni ymrwymiadau Cyngor Caerdydd yn Strategaeth Caerdydd Ddwyieithog 2022-27 i'r ddinas gyfan a hyrwyddo a chefnogi twf y Gymraeg i helpu i gyflawni strategaeth 'Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr Cymraeg' Llywodraeth Cymru. | Y Cynghorydd Huw Thomas | Perfformiad a Phartneriaethau |

[8] Cynllun Gweithredu LHDTC+ (llyw.cymru)

# AMCAN CYDRADDOLDEB 4

## CYNGOR SY'N ADLEWYRCHU EI GYMUNEDAU:

Byddwn yn gwneud Cyngor Caerdydd yn sefydliad mwy cynhwysol sy'n adlewyrchu amrywiaeth y bobl rydym yn eu gwasanaethu, a lle mae'r gweithwyr yn hyderus i fod yn nhw eu hunain ac yn cael eu grymuso i symud ymlaen.



# AMCAN CYDRADDOLDEB 4:

**Cyngor sy'n adlewyrchu ei gymunedau:** Byddwn yn gwneud Cyngor Caerdydd yn sefydliad mwy cynhwysol sy'n adlewyrchu amrywiaeth y bobl rydym yn eu gwasanaethu, a lle mae'r gweithwyr yn hyderus i fod yn nhw eu hunain ac yn cael eu grymuso i symud ymlaen.

Mae Caerdydd wedi tyfu'n sylweddol dros y 25 mlynedd diwethaf, sy'n duedd y disgwylir iddi barhau gan ddod â hyd yn oed mwy o amrywiaeth o gefndiroedd a diwylliannau i'r ddinas. Mae hyn yn ased mawr i'n cymunedau, ond mae hefyd yn golygu y gall anghenion fod yn wahanol ar draws y boblogaeth. Mae angen i wasanaethau'r Cyngor allu addasu ac ymateb er mwyn mynd i'r afael ag anghenion, pryderon a dyheadau gwahanol yn well a chael gweithlu sy'n adlewyrchu'r cymunedau a'r dinasyddion rydym yn eu gwasanaethu. Mae'r cynhwysiant hwn yn hanfodol i feithrin ymddiriedaeth ac ymgysylltiad ymysg ein cymunedau, gan hyrwyddo ymdeimlad o berthyn a pherchnogaeth mewn llywodraethu lleol. Mae hon yn faes sylw parhaus i'r Cyngor, ac rydym yn deall y bydd y camau a gyflwynir gennym nawr yn ein helpu i gyrraedd y nod hwn yn y dyfodol.

Felly, mae gwaith yn mynd rhagddo i sicrhau bod cyfle cyfartal, a'r ymdrech i ddileu gwahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth, wrth wraidd holl bolisïau, gweithdrefnau a chanllawiau'r Cyngor, gan gynnwys hysbysebu swyddi gwag, a recriwtio, cadw a dyrchafu staff.

Rydym hefyd wedi ymrwymo i ymgysylltu'n ystyrlon a gweithio mewn partneriaeth â sefydliadau allanol fel Compact Swyddi Cymunedol Caerdydd, Stonewall, The Sunflower Scheme, ac Undebau Llafur. Mae'r dull partneriaeth hwn yn helpu i sicrhau bod polisïau a gweithdrefnau'r Cyngor yn adlewyrchu arferion gorau i ysgogi newid diwylliannol cadarnhaol.

Felly, mae'r Amcan Cydraddoldeb hwn yn cyd-fynd â Strategaeth Gweithlu'r Cyngor, sy'n cynnwys ymrwymiad clir i gydraddoldeb ac amrywiaeth.

Er mwyn sicrhau bod Cyngor Caerdydd yn adlewyrchu ei gymunedau, byddwn yn:

- Dod yn gyflogwr o ddewis ar gyfer yr holl breswylwyr
- Cefnogi datblygiad gweithlu mwy amrywiol
- Cefnogi ein Rhwydweithiau Gweithwyr

## Y camau y byddwn yn eu cymryd i gyflawni hyn:

### Dod yn Gyflogwr o Ddewis ar gyfer yr Holl Breswylwyr

Rydym yn cydnabod bod sefydliad amrywiol yn ffynhonnell o gryfder a all helpu i ddarparu gwasanaethau hygyrch o ansawdd uchel. Felly, mae'n bwysig i ni, fel Cyngor, bod ein gweithlu'n adlewyrchu'r cymunedau a'r dinasyddion yr ydym yn eu gwasanaethu. Mae hyn yn faes ffocws parhaus i'r Cyngor, gydag Adroddiad Amrywiaeth Gweithwyr y Cyngor[9] yn casglu gwybodaeth fanwl am broffil demograffig y sefydliad.

9. Gellir dod o hyd i'r Adroddiad Amrywiaeth Gweithwyr diweddaraf yma

Felly, mae'r Cyngor wedi ymrwymo i gael gweithlu mwy cynrychioliadol, gan gydnabod y bydd hyn yn broses barhaus y mae'n rhaid ei hadolygu'n barhaus. Mae cael eich ystyried yn gyflogwr o ddewis i bob grŵp o bobl hefyd yn hollbwysig os yw'r Cyngor am ddenu a chadw'r dalent orau, yn enwedig o fewn marchnad lafur gystadleuol iawn. Felly, mae sicrhau bod cyfle cyfartal yn cael ei ymgorffori trwy gydol y broses recriwtio a dethol yn allweddol, ynghyd â gwaith ymgysylltu effeithiol gyda grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol.

| Byddwn yn: | Aelod Arweiniol | Cyfarwyddiaeth Arweiniol |
|---|---|---|
| Creu amgylchedd a fydd yn galluogi Cyngor Caerdydd i ddenu'r talent gorau trwy adolygiad parhaus o'n harferion denu a recriwtio. | Y Cynghorydd Chris Weaver | Adnoddau |
| Treialu paneli recriwtio amrywiol. | Y Cynghorydd Chris Weaver | Adnoddau |
| Neilltuo cyllid blynyddol i gynllun hyfforddeion corfforaethol y Cyngor. | Y Cynghorydd Chris Weaver | Adnoddau |
| Gwella amlygrwydd a mynediad i Caerdydd ar Waith ar gyfer grwpiau ethnig leiafrifol<br><br>• Parhau i ehangu mynediad ac amlygrwydd y gwasanaeth, gan fonitro effaith newidiadau a wnaed i'r gwasanaeth Caerdydd ar Waith yn 2021/22 er mwyn sicrhau bod y rhwystrau'n cael eu lleihau i geiswyr gwaith ethnig leiafrifol;<br><br>• Parhau i sicrhau bod rhaglen allgymorth, ymgysylltu a chyfathrebu yn cael ei chyflwyno er mwyn codi ymwybyddiaeth o'r gwasanaeth ymhlith ceiswyr swyddi ethnig leiafrifol. | Y Cyng. Ash Lister a'r Cyng. Peter Bradbury | Gwasanaethau Oedolion, Tai a Chymunedau |
| Sicrhau bod pob ysgol yn sefydlu amcanion cydraddoldeb clir ac yn cyhoeddi Cynllun Cydraddoldeb Strategol yn unol â Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus. Dylai'r Cynllun gynnwys camau ymarferol i bob ysgol fabwysiadu camau gweithredu cyffredin i sicrhau amrywiaeth yn eu gweithlu. Mae'r camau hyn yn cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i'r canlynol:<br><br>• Mabwysiadu proses recriwtio ddall mewn ysgolion, gan adlewyrchu'r arfer da sydd eisoes wedi'i fabwysiadu gan Gyngor Caerdydd;<br><br>• Mynad ati i hyrwyddo swyddi gwag ymysg grwpiau ethnig leiafrifol;<br><br>• Ymrwymo i ddarparu adborth cynhwysfawr i ymgeiswyr aflwyddiannus o gefndir ethnig leiafrifol;<br><br>• Nodi, deall a cheisio lliniaru unrhyw rwystrau y gall ymgeiswyr o gefndir ethnig leiafrifol neu ddiwylliannol amrywiol ddod ar eu traws yn ystod y broses ymgeisio ar gyfer swyddi addysgu;<br><br>• Penodi Llywodraethwr sy'n gyfrifol am fentrau 'Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant'. | Y Cynghorydd Sarah Merry | Addysg a Dysgu Gydol Oes |

| Byddwn yn: | Aelod Arweiniol | Cyfarwyddiaeth Arweiniol |
|---|---|---|
| Cynyddu cynrychiolaeth trigolion ethnig leiafrifol mewn timau arwain ysgolion drwy raglen fynediad Llywodraethwyr Ysgol. Mae hyn yn cynnwys:<br><br>• Rhoi cynllun peilot 'Rhaglen Llywodraethwyr y Dyfodol' ar waith i fforymau rhieni yn Ysgolion Caerdydd.<br><br>• Darparu Llywodraethwr sy'n gyfrifol am 'Gydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant' ar gyfer pob ysgol gyda hyfforddiant ac arweiniad.<br><br>• Datblygu cynllun recriwtio ar gyfer cynyddu amrywiaeth llywodraethwyr Ysgol mewn partneriaeth ag ysgolion a Chyngor y Gweithlu Addysg. | Y Cynghorydd Sarah Merry | Addysg a Dysgu Gydol Oes |
| Datblygu a gweithredu rhaglen recriwtio a chadw i gynyddu amrywiaeth y gweithlu ysgolion. | Y Cynghorydd Sarah Merry | Addysg a Dysgu Gydol Oes |
| Datblygu a gweithredu rhaglen recriwtio a chadw i gynyddu amrywiaeth y gweithlu gofal cymdeithasol. | Y Cynghorydd Leonora Thomson, y Cynghorydd Julie Sangani, y Cynghorydd Ash Lister a'r Cynghorydd Peter Bradbury | Gwasanaethau Plant a Gwasanaethau Oedolion, Tai a Chymunedau |
| Datblygu fframwaith i gefnogi integreiddio gweithwyr cymdeithasol o dramor. | Y Cyng. Ash Lister a'r Cyng. Peter Bradbury | Gwasanaethau Plant |
| Ystyried pa sefydliadau y gall y Cyngor weithio gyda nhw i godi ymwybyddiaeth o gyfleoedd mewn gwaith cymdeithasol a sefydlu cysylltiadau â chymunedau. | Y Cyng. Ash Lister a'r Cyng. Peter Bradbury | Gwasanaethau Plant |
| Adolygu rhaglen dreigl o weithdai Amrywiaeth Ddiwylliannol Gwasanaethau Plant i gynnwys ymwybyddiaeth o ddiwylliant a gwella ymgysylltiad â chymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr. | Y Cyng. Ash Lister a'r Cyng. Peter Bradbury | Gwasanaethau Plant |
| Datblygu a gweithredu pecyn adnoddau sefydlu canolog i gefnogi gweithwyr newydd y cyngor, gan brofi mynediad rhwydd at wasanaethau hanfodol ac arweiniad o'r cychwyn cyntaf, o ystyried y trefniadau gweithio hybrid cynyddol. | Y Cynghorydd Chris Weaver | Adnoddau |

| Dangosyddion Perfformiad Allweddol: |
|---|
| Nifer yr ymgeiswyr misol o gefndiroedd ethnig leiafrifol i Caerdydd ar Waith. |
| Nifer yr ysgolion sydd wedi cyhoeddi Cynllun Cydraddoldeb Strategol yng Nghaerdydd |
| Nifer y bobl o gefndir ethnig leiafrifol mewn swyddi arwain yn ysgolion Caerdydd. |
| Nifer y llywodraethwyr awdurdod lleol newydd a benodir o gefndiroedd ethnig leiafrifol |
| Canran y gweithlu addysgu o gefndir ethnig leiafrifol yn ysgolion Caerdydd |

## Cefnogi Datblygiad Gweithlu Mwy Amrywiol

Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i gynhwysiant a gall adeiladu ar sawl enghraifft o arfer rhagorol. Er enghraifft, y Cyngor oedd yr awdurdod lleol gorau yng Nghymru ym Mynegai Stonewall y DU yn 2023 a 2024, gan dynnu sylw at ein hymrwymiad i gefnogi staff a chwsmeriaid LHDTC+. Yn ogystal, llofnododd y Cyngor Siarter Gwrth-hiliaeth UNISON yn ddiweddar, gan dynnu sylw at ein hymroddiad i frwydro yn erbyn gwahaniaethu hiliol yn y gweithle.

Wrth symud ymlaen, i ddod yn gyflogwr o ddewis i bobl o bob cefndir rydym yn cydnabod pwysigrwydd darparu dysgu rhagorol a datblygu arweinyddiaeth i'r holl staff, ond yn enwedig i'r rhai sydd heb gynrychiolaeth ddigonol yn y sefydliad. Mae hyn yn cynnwys canolbwyntio ar ddatblygu arweinwyr y dyfodol ac arallgyfeirio cynrychiolaeth o fewn uwch swyddi. Agwedd allweddol arall ar ddod yn gyflogwr o ddewis yw sicrhau cyflog cyfartal am waith cyfartal, cau'r bylchau cyflog rhwng y rhywiau ac o ran ethnigrwydd[10], ac annog system dryloyw. Er mwyn sicrhau tegwch o ran cyflog, bydd y Cyngor yn parhau i adrodd am y bylchau cyflog a nodwyd a'u lleihau trwy ei Adroddiad Amrywiaeth Gweithwyr blynyddol. Bydd y Cyngor hefyd yn parhau i baratoi a chyhoeddi Datganiad Polisi Tâl[11] bob blwyddyn, fel fframwaith ar gyfer gwneud penderfyniadau ar gyflog i sicrhau bod gweithwyr yn cael eu gwobrwyo'n deg ac yn wrthrychol heb wahaniaethu.

| Byddwn yn: | Aelod Arweiniol | Cyfarwyddiaeth Arweiniol |
|---|---|---|
| Datblygu a chyflwyno rhaglen o ymgysylltu â gweithwyr. | Y Cynghorydd Chris Weaver | Adnoddau |
| Cwblhau cynllun treialu y Rhaglen Datblygu Arweinyddiaeth ar gyfer aelodau'r Rhwydweithiau Gweithwyr ac edrych ar ffyrdd o ymgorffori o fewn y gyfres hyfforddiant. | Y Cynghorydd Chris Weaver | Adnoddau |
| Cyflwyno'r Rhaglen Fentora Gwrthdroi sy'n gysylltiedig â'r Rhaglen Datblygu Arweinyddiaeth. | Y Cynghorydd Chris Weaver | Adnoddau |
| Cefnogi llwybrau dilyniant gyrfa ar gyfer gweithwyr o leiafrifoedd ethnig | Y Cynghorydd Chris Weaver | Adnoddau |
| Cefnogi'r gwaith o amrywio'r gweithlu addysgu drwy Raglen 'Camu i Addysgu' ar gyfer cynorthwywyr addysgu. | Y Cynghorydd Sarah Merry | Addysg a Dysgu Gydol Oes |
| Darparu a hyrwyddo darpariaeth Saesneg i Siaradwyr Ieithoedd Eraill i gefnogi staff y mae eu sgiliau Saesneg yn rhwystr posibl i ddatblygiad gyrfaol o fewn y sefydliad. | Y Cyng. Chris Weaver, y Cyng. Leonora Thomson a'r Cyng. Julie Sangani | Gwasanaethau Oedolion, Tai a Chymunedau |

10. Rydym yn ymwybodol bod data cenedlaethol yn amlygu bod bwlch cyflog o ran pobl anabl, sydd wedi bod yn ehangach yn gyson i ddynion anabl nag i fenywod anabl. Nid yw'r data llawn am weithwyr anabl ar gael ar hyn o bryd ar gyfer gweithlu'r Cyngor gan ei fod yn cael ei hunan-adrodd, ond mae camau'n mynd rhagddynt i wella gwybodaeth monitro staff (gweler Amcan Cydraddoldeb 5) gyda'r bwriad o ddarparu'r data hwn yn y dyfodol.

11. Gellir dod o hyd i Ddatganiad Polisi Cyflog diweddaraf y Cyngor yma.

| Byddwn yn: | Aelod Arweiniol | Cyfarwyddiaeth Arweiniol |
|---|---|---|
| Monitro sut rydym yn adrodd am y bwlch cyflog rhwng y rhywiau ac o ran hil a sicrhau bod cynlluniau gweithredu cyfredol yn cefnogi cau unrhyw fylchau fel y bo'n briodol. | Y Cynghorydd Chris Weaver | Adnoddau |
| Adolygu polisïau a phrosesau Adnoddau Dynol corfforaethol, gan gynnwys Llawlyfr Cydraddoldeb ac Amrywiaeth y Cyngor, i adlewyrchu unrhyw newidiadau deddfwriaethol Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant neu arfer gorau. | Y Cyng. Chris Weaver, y Cyng. Leonora Thomson a'r Cyng. Julie Sangani | Adnoddau |
| Adeiladu ar ein Statws Aur Stonewall a chadw ein safle fel un o Gyflogwyr 100 Gorau Stonewall. | Y Cyng. Chris Weaver, y Cyng. Leonora Thomson a'r Cyng. Julie Sangani | Adnoddau |
| Cynyddu nifer a chanran y siaradwyr Cymraeg yn y gweithlu yn unol â'r Polisi 'Caerdydd Ddwyieithog: Cyngor Dwyieithog' ac ehangu'r gallu i ddarparu gwasanaethau dwyieithog trwy weithredu Strategaeth Sgiliau Iaith Gymraeg. | Y Cynghorydd Huw Thomas | Perfformiad a |
| Adolygu a monitro data'r gweithlu fesul cyfarwyddiaeth, gan dynnu sylw at feysydd cynnydd a chanolbwyntio ar feysydd lle mae angen ymdrechion pellach i ysgogi newid ystyrlon. | Y Cyng. Chris Weaver, y Cyng. Leonora Thomson a'r Cyng. Julie Sangani | Adnoddau, a Pherfformiad a |

| Dangosyddion Perfformiad Allweddol: |
|---|
| Nifer y staff ethnig leiafrifol ar raddau uwch (G8-10) a RhG+ y Cyngor |
| Nifer y cyrsiau Gwella Saesneg Llafar (ICE) a ddarperir a mynychwyr |
| Nifer yr atgyfeiriadau i Bartneriaeth Dysgu Caerdydd a'r Fro ar gyfer cyrsiau Saesneg i Siaradwyr Ieithoedd Eraill, gan gynnwys staff |
| Gwahaniaeth yn y cyflog cyfartalog rhwng gweithwyr gwyn a gweithwyr o bob ethnigrwydd arall yn y Cyngor |
| Y gwahaniaeth yn y cyflog cyfartalog rhwng gweithwyr gwrywaidd a benywaidd y Cyngor |
| Cynyddu nifer y staff sydd a sgiliau Cymraeg yng ngweithlu'r Cyngor i 20 % o'r gweithlu erbyn 2027 |
| Cynyddu nifer staff y Cyngor sydd wedi derbyn hyfforddiant Cymraeg i 50 % o'r gweithlu erbyn 2027 |

## Cefnogi ein Rhwydweithiau Gweithwyr

Mae Rhwydweithiau Gweithwyr yn adnodd gwerthfawr a hanfodol ac yn helpu'r Cyngor i gyflawni ei ddyletswyddau dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 i hybu cydraddoldeb, dileu camwahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth a hybu perthynas dda rhwng grwpiau gwahanol.

Mae gan y Cyngor bum Rhwydwaith Gweithwyr fel ffordd o gefnogi gweithwyr a'u galluogi i wella'r ffordd y mae Cyngor Caerdydd yn gweithio fel cyflogwr: Y Rhwydwaith Ethnig Amrywiol, y Rhwydwaith Anabledd (sy'n cynnwys Cymuned Gweithwyr Niwrowahanol), y Rhwydwaith LHDT, y Rhwydwaith Menywod a'r Rhwydwaith Gofalwyr.

Mae'r rhwydweithiau ar gyfer holl gyflogeion y Cyngor, ar draws pob adran ac ar bob lefel o'r sefydliad. Mae gan bob gweithiwr yr hawl a bydd yn cael eu hannog i ddod yn aelod o un neu fwy o'r rhwydweithiau, a byddwn yn parhau i gefnogi'r rhwydweithiau i wneud cyfraniad cadarnhaol at bolisïau, gweithdrefnau a diwylliant y Cyngor, yn ogystal â threfnu cyfleoedd a digwyddiadau datblygu.



| Byddwn yn: | Aelod Arweiniol | Cyfarwyddiaeth Arweiniol |
|---|---|---|
| Parhau i gynyddu aelodaeth ein Rhwydweithiau Gweithwyr i rymuso gweithwyr i ddod â'u holl hunain i'r gwaith. | Y Cyng. Chris Weaver, y Cyng. Leonora Thomson a'r Cyng. Julie Sangani | Adnoddau |
| Parhau i gefnogi ac annog ein Rhwydweithiau Gweithwyr i ddarparu lle diogel i weithwyr fod yn nhw eu hunain. | Y Cyng. Chris Weaver, y Cyng. Leonora Thomson a'r Cyng. Julie Sangani | Adnoddau |
| Gweithio'n agos gyda Rhwydweithiau Gweithwyr i ddeall sut y gallwn feithrin diwylliant mwy cynhwysol sy'n denu ac yn annog ymgeiswyr o grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol. | Y Cyng. Chris Weaver, y Cyng. Leonora Thomson a'r Cyng. Julie Sangani | Adnoddau |
| Datblygu a chynnal canllawiau a pholisïau er mwyn sicrhau cynwysoldeb i'r holl staff. | Y Cynghorydd Chris Weaver | Adnoddau |



# AMCAN CYDRADDOLDEB 5

## CYDRADDOLDEB, AMRYWIAETH A CHYNHWYSIANT WRTH WRAIDD Y SEFYDLIAD:

Byddwn yn sicrhau bod prosesau craidd Cyngor Caerdydd yn cefnogi Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant.



# AMCAN CYDRADDOLDEB 5:

## **Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant wrth wraidd y sefydliad:** Byddwn yn sicrhau bod prosesau craidd Cyngor Caerdydd yn cefnogi Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant.

Mae nifer o brosesau craidd y Cyngor yn chwarae rhan bwysig wrth sicrhau llunio polisïau gwybodus, cynhwysol a chydlynol. Nid yn unig y mae hyn yn helpu i sicrhau bod y Cyngor yn cydymffurfio â gofynion statudol, ond mae hefyd yn sicrhau dull systematig o ddatblygu polisi sy'n ystyried yr effaith ar y bobl rydym yn eu gwasanaethu.

Bydd hyn yn cynnwys rhaglen o hyfforddiant cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant o ansawdd uchel, gyda chwrs sylfaen gorfodol i'r holl staff a chynnig hyfforddiant mwy penodol i bob rheolwr. Gyda'i gilydd, bydd hyn yn sicrhau bod holl staff y Cyngor yn deall gwerthoedd ac ymrwymiadau'r sefydliad, ac y bydd rheolwyr yn cael eu grymuso i sefydlu'r diwylliant a'r arfer cywir.

Elfen allweddol arall fydd sicrhau bod asesiadau effaith o ansawdd uchel yn cael eu cwblhau'n amserol, gan gynnwys Asesiadau Effaith ar Gydraddoldeb, Asesiadau o'r Effaith ar Hawliau Plant ac Asesiadau Effaith ar y Gymraeg. Bydd prosesau cadarn ar waith i sicrhau cydymffurfiaeth a chadarnhau trefniadau i sicrhau eu bod yn cael eu cwblhau i safon uchel. Mae asesiadau effaith o ansawdd uchel yn hanfodol i helpu'r Cyngor i ddeall pwy y bydd unrhyw benderfyniad polisi posibl yn effeithio arnynt, a sut.

Fel rhan o'r dull hwn, bydd y Cyngor yn sefydlu cysylltiad agosach rhwng canlyniadau asesiadau effaith a gwaith ymgynghori ac ymgysylltu. Mae'r Strategaeth Cyfranogiad eisoes yn nodi rhaglen waith ar gyfer cryfhau ymgynghori ac ymgysylltu, ac mae rhan o hyn yn cynnwys defnyddio canfyddiadau asesiadau effaith i dargedu gweithgarwch ymgynghori.

Yn ehangach, bydd Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant yn rhan allweddol o raglen ymgysylltu staff y Cyngor.

Er mwyn sicrhau bod Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant wrth wraidd Cyngor Caerdydd, byddwn yn:

- Cryfhau dull y Cyngor o ddatblygu polisi a gwneud penderfyniadau
- Gwella cynnig hyfforddiant cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant y Cyngor
- Cryfhau llais y dinesydd
- Gwella ein dealltwriaeth o'n gweithlu a'n defnyddwyr gwasanaeth
- Mabwysiadu arferion comisiynu a chaffael cynhwysol

# Y camau y byddwn yn eu cymryd i gyflawni hyn:

## Cryfhau Dull y Cyngor o Ddatblygu Polisi a Gwneud Penderfyniadau

Er mwyn bodloni Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus yn effeithiol, rhaid i'r Cyngor ymgorffori ystyriaethau cydraddoldeb ym mhob cam o'r broses o ddatblygu polisi a gwneud penderfyniadau. Bydd cwblhau Asesiadau Effaith ar Gydraddoldeb o ansawdd uchel mewn modd systematig yn helpu'r Cyngor i gyflawni hyn, gan sicrhau ei fod yn ymwybodol o unrhyw effaith anghymesur ar wahanol grwpiau o bobl, ond yn enwedig y rhai â nodweddion gwarchodedig.

Felly, bydd y Cyngor yn ymgorffori dull cryfach o ystyried effaith penderfyniadau a wnawn ar grwpiau gwarchodedig, sy'n cyd-fynd â'n rhaglen ymgynghori ac ymgysylltu.

| Byddwn yn: | Aelod Arweiniol | Cyfarwyddiaeth Arweiniol |
|---|---|---|
| Cwblhau Asesiadau Effaith ar Gydraddoldeb o ansawdd uchel ar yr holl benderfyniadau perthnasol, gan gynnwys:<br>• Gweithredu'r Traciwr Asesu Effaith Corfforaethol;<br>• Sicrhau bod pob Rheolwr Gweithredol yn cwblhau hyfforddiant Asesu Effaith;<br>• Hyrwyddo'r ffurflen Asesu Effaith Sengl;<br>• Rhaglen adolygu tri mis dreigl gan y gyfarwyddiaeth i asesu ansawdd yr Asesiadau Effaith yn feirniadol. | Y Cynghorwyr Leonora Thomson a Julie Sangani | Perfformiad a Phartneriaethau, ac Adnoddau |
| Sicrhau bod Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb ar gael fel rhan o'r broses gwneud penderfyniadau. | Y Cynghorwyr Leonora Thomson a Julie Sangani | Llywodraethu a Chyfreithiol, Perfformiad a Phartneriaethau |
| Ystyried opsiynau i alinio ac integreiddio Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb, y Gymraeg a Hawliau Plant ymhellach. | Y Cyng. Huw Thomas, y Cyng. Sarah Merry, y Cyng. Leonora Thomson a'r Cyng. Julie Sangani | Perfformiad a Phartneriaethau |
| Cryfhau'r cysylltiadau rhwng canlyniadau Asesiadau Effaith a rhaglen ymgynghori ac ymgysylltu'r Cyngor. | Y Cynghorwyr Leonora Thomson a Julie Sangani | Perfformiad a Phartneriaethau |
| Gweithio gyda phartneriaid yn y sector cyhoeddus trwy Rwydwaith Cydraddoldeb y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus i fynd i'r afael â heriau cyffredin a chyflawni dyheadau cyffredin sy'n gysylltiedig â chydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant. | Y Cyng. Huw Thomas, y Cyng. Leonora Thomson a'r Cyng. Julie Sangani | Perfformiad a Phartneriaethau |

| Byddwn yn: | Aelod Arweiniol | Cyfarwyddiaeth Arweiniol |
|---|---|---|
| Gwella amrywiaeth cynrychiolaeth mewn paneli gwneud penderfyniadau allweddol:<br><br>• Bydd cynrychiolwyr y Cyngor ac uwch reolwyr yn ymdrechu i gymryd rhan dim ond mewn cynadleddau/paneli sy'n cynnwys aelodaeth amrywiol.<br><br>• Bydd yr holl ddigwyddiadau sy'n cael eu cynnal gan y Cyngor hefyd yn ymdrechu i sicrhau panel/rhestr amrywiol o siaradwyr. | Y Cyng. Chris Weaver, y Cyng. Leonora Thomson a'r Cyng. Julie Sangani | Llywodraethu a Chyfreithiol |

| Dangosyddion Perfformiad Allweddol: |
|---|
| Canran yr Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb a nodwyd fel rhai sy'n ofynnol ar gyfer Penderfyniadau'r Cabinet a gwblheir |



# Gwella Cynnig Hyfforddiant Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant y Cyngor

Mae sefydlu fframwaith cynhwysfawr o hyfforddiant cydraddoldeb yn hanfodol er mwyn sicrhau bod ein hymrwymiad i gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant yn cael ei ddeall a'i fod yn amlwg ymhlith staff ac ar draws y sefydliad. Mae hyn hefyd yn bwysig wrth sicrhau bod gofynion Deddf Cydraddoldeb 2010, gan gynnwys y rheoliadau sy'n benodol i Gymru, Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus a'r Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol yn cael eu deall ac yr ymatebir iddynt yn effeithiol. Felly, byddwn yn gweithio i sicrhau bod pob aelod o staff yn derbyn lefelau priodol o hyfforddiant cydraddoldeb, gyda hyfforddiant cydraddoldeb yn orfodol i'r holl staff, hyfforddiant arbenigol ar gael lle bo angen a hyfforddiant mwy penodol yn orfodol i aelodau penodol o staff a rheolwyr.

| Byddwn yn: | Aelod Arweiniol | Cyfarwyddiaeth Arweiniol |
|---|---|---|
| Sefydlu rhaglen hygyrch o ansawdd uchel o hyfforddiant cydraddoldeb corfforaethol, amrywiaeth a chynhwysiant, gan gynnwys:<br><br>• Modiwl hyfforddiant cydraddoldeb corfforaethol gorfodol ar gyfer yr holl staff;<br><br>• Modiwl pwrpasol ar gyfer y rhai sy'n llunio polisi/diwygio darpariaeth gwasanaethau gyda phwyslais ar Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb;<br><br>• Trefniadau monitro cryfach;<br><br>• Rhaglen dreigl o sesiynau briffio gydag Uwch Reolwyr y Cyngor;<br><br>• Ymgorffori modiwl hyfforddi cynhwysfawr ar gyfer Aelodau fel rhan o raglen sefydlu aelodau'r Cyngor. | Y Cyng. Chris Weaver, y Cyng. Leonora Thomson a'r Cyng. Julie Sangani | Adnoddau, Perfformiad a Phartneriaethau, a Llywodraethu a Chyfreithiol |
| Adolygu ein rhaglen o hyfforddiant cydraddoldeb/ cynhwysiant a gweithio i sicrhau bod egwyddorion CEDAW yn cael eu hamlygu, eu prif ffrydio a'u darparu trwy hyfforddiant o'r fath ar gyfer staff a swyddogion y Cyngor, gan gynnwys staff rheng flaen. | Y Cynghorwyr Leonora Thomson a Julie Sangani | Perfformiad a Phartneriaethau |

| Dangosyddion Perfformiad Allweddol: |
|---|
| Canran staff y Cyngor sy'n cwblhau hyfforddiant cydraddoldeb |
| Canran rheolwyr gweithredol y Cyngor sy'n cwblhau hyfforddiant Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb |
| Nifer y staff sy'n cwblhau hyfforddiant Rhagfarn Ddiarwybod a Microymosodiadau. |
| Nifer yr ysgolion sy'n cymryd rhan yn y peilot Hyfforddiant 'Hyrwyddo Cydraddoldeb' Gwrth-hiliaeth |

## Cryfhau Llais y Dinesydd

Rydym am i bob preswylydd a chymuned gael mynegi eu barn ar y penderfyniadau mawr y bydd y Cyngor yn eu gwneud a chwarae rhan allweddol wrth ddarparu gwasanaethau lleol, gan sicrhau bod amrywiaeth y ddinas yn cael ei hadlewyrchu yn ein gwaith. Mae dadansoddiad o arolygon craidd Caerdydd yn nodi cyfradd ymateb is i waith ymgynghori ac ymgysylltu gan blant a phobl ifanc; pobl hŷn, yn enwedig y rhai sy'n 75 oed neu'n hŷn; pobl o gefndiroedd ethnig amrywiol; pobl sy'n byw mewn wardiau economaidd-gymdeithasol is; a phobl anabl. Am y rheswm hwn, byddwn yn cyflawni'r camau a amlinellir yn y Strategaeth Cyfranogiad[12], sy'n cynnwys sefydlu rhaglen ymgysylltu ac adborth wedi'i thargedu i feithrin ymddiriedaeth a chysylltiadau â chymunedau sydd leiaf tebygol o ymgysylltu, creu rhaglen ymgysylltu ac ymgynghori rheolaidd gyda chynrychiolwyr y gymuned F/fyddar ac unigolion sy'n ddall neu'n rhannol ddall, yn ogystal â darparu arweiniad corfforaethol ar gyfathrebu a gwybodaeth hygyrch. Mae'r Strategaeth Cyfranogiad hefyd yn adlewyrchu ymrwymiad y Cyngor i ddod yn Gyngor Amrywiol, gan amlinellu camau i wella amrywiaeth mewn democratiaeth yn y ddinas.

| Byddwn yn: | Aelod Arweiniol | Cyfarwyddiaeth Arweiniol |
|---|---|---|
| Cyflawni cynllun gweithredu'r Strategaeth Cyfranogi i wneud y canlynol:<br>• Gwella ymgysylltiad â lleisiau nas clywir yn aml ac ehangu lleisiau pobl sydd ar hyn o bryd yn llai tebygol o gymryd rhan yn y broses o wneud penderfyniadau;<br>• Datblygu rhaglen ymgysylltu ac ymgynghori reolaidd gyda chynrychiolwyr y gymuned F/fyddar a'r rhai sy'n ddall neu'n rhannol ddall;<br>• Datblygu canllawiau ar gyfathrebu a gwybodaeth hygyrch;<br>• Hyrwyddo cyfranogiad yn y broses ddemocrataidd. | Y Cynghorwyr Leonora Thomson a Julie Sangani | Perfformiad a Phartneriaethau, a Llywodraethu a Gwasanaethau Cyfreithiol |
| Datblygu rhaglenni gwaith i annog pobl ifanc o gefndiroedd ethnig leiafrifol i ymwneud â gwleidyddiaeth a phenderfyniadau lleol. | Y Cyng. Leonora Thomson, y Cyng. Julie Sangani a'r Cyng. Sarah Merry | Addysg a Dysgu Gydol Oes |
| Datblygu dull effeithiol i gymunedau ymgysylltu â'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol a sicrhau bod lleisiau cymunedol amrywiol yn cael eu clywed. | Y Cynghorydd Lynda Thorne, y Cynghorydd Lee Bridgeman, y Cynghorydd Leonora Thomson a'r Cynghorydd Julie Sangani | Perfformiad a Phartneriaethau |

| Dangosyddion Perfformiad Allweddol: |
|---|
| Canran y bobl sy'n teimlo y gallant ddylanwadu ar benderfyniadau sy'n effeithio ar eu hardal leol |

12. Strategaeth Cyfranogiad (caerdydd.gov.uk)

## Gwella ein Dealltwriaeth o'n Gweithlu a'n Defnyddwyr Gwasanaeth

Mae datblygu dealltwriaeth o'n defnyddwyr gwasanaeth yn hanfodol os ydym am ddeall effeithiolrwydd ein gwasanaethau a sicrhau ein bod yn diwallu anghenion ein cymunedau amrywiol. Felly, er mwyn cyflawni hyn, byddwn yn bwrw ymlaen â rhaglen waith i wella ein dealltwriaeth o gwsmeriaid a defnyddwyr gwasanaeth.

Cydnabyddir bod bylchau yn y data ledled Cymru sy'n ei gwneud hi'n anodd deall profiadau pobl sy'n rhannu rhai o'r nodweddion gwarchodedig. Mae diffyg data penodol yn ymwneud â chyfeiriadedd rhywiol; ailbennu rhywedd; crefydd, cred neu anghrediniaeth; a hil er enghraifft. Felly, byddwn yn gweithio i wella ein harferion casglu data er mwyn deall profiad y cwsmer yn well.

| Byddwn yn: | Aelod Arweiniol | Cyfarwyddiaeth Arweiniol |
|---|---|---|
| Gwella casglu, dadansoddi ac adrodd am ddata cydraddoldeb defnyddwyr gwasanaeth, ynghyd â data llais y dinesydd arall, drwy wneud y canlynol:<br><br>• Cyhoeddi canllawiau arfer da ar gyfer casglu data defnyddwyr gwasanaeth;<br><br>• Ymgorffori dangosyddion llais y dinesydd o fewn Fframwaith Cynllunio a Monitro'r Cyngor. | Y Cynghorwyr Leonora Thomson a Julie Sangani | Perfformiad a Phartneriaethau |
| Gwella gwybodaeth monitro staff trwy wneud y canlynol:<br><br>• Hyrwyddo'r ap Gweithio i Gaerdydd.<br><br>• Annog pob gweithiwr i rannu eu nodweddion gwarchodedig a diweddaru eu cofnodion personol yn gyfrinachol.<br><br>• Sicrhau bod gan reolwyr y data cywir i ddeall cyfansoddiad eu gweithlu. | Y Cynghorydd Chris Weaver | Adnoddau |
| Adolygu'r holiadur ymadael a'r broses cyfweliad ymadael, gyda'r nod o wella tryloywder ac effeithiolrwydd monitro a dadansoddi data, a thrwy hynny ennill gwell dealltwriaeth o'r rhesymau dros ymadawiadau gweithwyr. | Y Cynghorydd Chris Weaver | Adnoddau |

## Mabwysiadu Arferion Comisiynu a Chaffael Cynhwysol

Rydym yn gweithio mewn partneriaethau cytundebol gyda'r sector preifat a gwirfoddol i ddarparu ystod eang o wasanaethau, seilwaith a nwyddau. Yn yr achosion hyn, gall caffael effeithiol helpu i wella ansawdd gwasanaethau, gan gynnwys diwallu anghenion amrywiol gwahanol grwpiau ethnig yn well. Gallwn ddefnyddio ein pwerau prynu i hyrwyddo cydraddoldeb a, lle bo'n briodol, sicrhau buddion lles cymunedol ehangach, megis creu cyfleoedd hyfforddi neu gyflogaeth i bobl leol, annog cyflogwyr i recriwtio prentisiaethau o grwpiau difreintiedig[5] a chynyddu tryloywder ynghylch amrywiaeth eu gweithluoedd.

| Byddwn yn: | Aelod Arweiniol | Cyfarwyddiaeth Arweiniol |
|---|---|---|
| Gwella arferion Gwaith Teg a Diogelu a ddefnyddir gan gyflenwyr trwy wneud y canlynol:<br><br>• Sicrhau bod tendrwyr a chontractwyr yn ymwybodol o ymrwymiad y Cyngor i weithio gyda sefydliadau a fydd yn cefnogi'r Cyngor i gyflawni ei ddyletswyddau cydraddoldeb, gwaith teg a diogelu.<br><br>• Defnyddio ein proses dendro a chontractau i sicrhau bod ein cyflenwyr a'n contractwyr wedi ymrwymo i'n cefnogi i gyflawni ein dyletswyddau cydraddoldeb, gwaith teg a diogelu.<br><br>• Rheoli Cyflenwyr a Chontractwyr i sicrhau eu bod yn cyflawni eu hymrwymiadau cydraddoldeb, gwaith teg a diogelu o fewn eu sefydliad a'u cadwyn gyflenwi. | Y Cyng. Chris Weaver, y Cyng. Leonora Thomson a'r Cyng. Julie Sangani | Adnoddau |
| Cyhoeddi Polisi Caffael Cymdeithasol-Gyfrifol wedi'i ddiweddaru ddiwedd 2024 sy'n ailddatgan ac yn cryfhau'r canlynol gan y Cyngor:<br><br>• Ymrwymiad i wreiddio gwaith teg a chyflogaeth foesegol yn ei brosesau a'i weithdrefnau caffael.<br><br>• Dull o sicrhau Buddion Lles Cymunedol mewn contractau perthnasol. | Y Cynghorydd Chris Weaver | Adnoddau |

| Dangosyddion Perfformiad Allweddol: |
|---|
| Canran y gweithwyr cyfwerth ag amser llawn o grwpiau difreintiedig[5] a gyflogir ar gontractau tendro Cyngor Caerdydd[13] |
| Canran y gweithwyr Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol a gyflogir ar gontractau tendro Cyngor Caerdydd[13] |

[13.] Contractau tendro lle ceisir buddion lles cymunedol.



CRYFACH
TECACH
GWYRDDACH

CARDIFF
CAERDYDD